# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 26 TACHWEDD 2012 am 2.00 o'r gloch | | MONDAY at 26 November, 2012 at 2.00pm |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752517 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL GWREIDDIOL/ORIGINAL INDEPENDENT**

W T Hughes, Eric Jones, Ieuan Williams (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), G O Jones, G W Roberts OBE a E Schofield

**LLAFUR/LABOUR**

R Dylan Jones

**LLAIS I FÔN**

S Williams (Cadeirydd/Chair)

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

Vaughan Hughes, W I Hughes a E G Davies

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

H E Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG (GYDA PLEIDLAIS) PAN YN TRAFOD MATERIONYN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS (WITH A RIGHT TO VOTE) WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

## R H A G L E N

**1** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **<u>COFNODION</u>** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Hydref, 2012.

**3** **<u>MATERION CYLLIDEBOL</u>** (Tudalennau 7 - 30)

**3.1 Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 2 2012/13**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid).

**3.2 Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw - Chwarter 2 2012/13**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid).

**4** **<u>RHESYMOLI PARTNERIAETHAU</u>** (Tudalennau 31 - 38)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi).

**5** **<u>CYNLLUN INTEGREDIG SENGL</u>** (Tudalennau 39 - 44)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) ynglyn â'r uchod.

**6** **<u>STRATEGAETH GYFATHREBU CORFFORAETHOL</u>** (Tudalennau 45 - 68)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) ynghyd â'r Strategaeth Gyfathrebu Corfforaethol drafft.

**7** **<u>BLAENRHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR</u>** (Tudalennau 69 - 70)

Bydd y Rheolwr Sgriwtini yn cyflwyno Blaenrhaglen Waith y Pwyllgor hwn.

**8** **<u>GWEITHGOR ABSENOLDEB SALWCH</u>**

Derbyn diweddariad ar lafar gan y Pennaeth Adnoddau Dynol Dros Dro.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2012**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, W. I. Hughes, Vaughan Hughes, G. O. Jones, H. Eifion Jones, Gareth W. Roberts OBE, Elwyn Schofield. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Pennaeth Dros Dro Adnoddau a Swyddog Adran 151 (ar gyfer eitem 6)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)(ar gyfer eitem 6)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) (ar gyfer eitemau 4 a 5)<br>Rheolwr Rhaglenni a Chynllunio Busnes (ar gyfer eitemau 4 a 5)<br>Rheolwr Sgriwtini<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorydd R. Dylan Jones, Mr. Keith Roberts. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. John R. Jones (Prif Swyddog Medrwn Môn) Cynghorydd W. J. Chorlton (Deilydd Portffolio Cyllid, TG ac Adnoddau Dynol), Cynghorydd R. Lloyd Hughes (Deilydd Portffolio Cynllunio), Cynghorydd G. O. Parry MBE (ar gyfer eitem 7). |

---

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod ac estynnodd groeso arbennig i'r Cynghorydd Vaughan Hughes i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac i Mr. John R. Jones oedd yn bresennol ar gyfer cyflwyniad o dan eitem 3. Cyfeiriodd y Cadeirydd at Mr. Carl Thomas, y Swyddog Cyswllt a Chefnogaeth Sgriwtini oedd wedi gadael yr Awdurdod i gymryd swydd newydd ac ar ran yr Aelodau diolchodd iddo am ei gefnogaeth i'r Pwyllgor hwn yn ystod ei amser yma a dymunodd yn dda iddo yn ei yrfa newydd. Gofynnodd am ganiatâd y Pwyllgor i newid trefn y busnes fel ag yr oedd yn ymddangos ar y rhaglen a chytunodd aelodau'r Pwyllgor i'r cais.

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni wnaed yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 31 Mai (cyfarfod i alw penderfyniad i mewn) a 7 Mehefin 2012.

Yng nghyswllt cofnodion y cyfarfod ar 7 Mehefin, rhoddodd y Rheolwr Sgriwtini ddiweddariad i'r Aelodau fel a ganlyn –

- Mewn perthynas â'r system AD / Cyflogres Integredig, roedd grŵp tasg o swyddogion wedi ei sefydlu i ymchwilio i faterion yn ymwneud ag absenoldeb salwch ac fe ddisgwylir iddo gwblhau ei waith yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf. Bydd cwblhau'r gwaith hwnnw yn cynhyrchu Cynllun Gweithredu gydag argymhellion i'r Tîm Uwch Arweinyddiaeth. Awgrymir, felly, bod y grŵp tasg yn cael cwblhau ei waith gyda golwg ar roi diweddariad i'r Pwyllgor ar ganlyniadau a chynnwys y Cynllun Gweithredu yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.
- Mewn perthynas â chynnwys y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar flaenraglen waith y Pwyllgor, mewn ymgynghoriad â'r Is-Gadeirydd ac yn dilyn cysylltu â'r Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid), ceir ar ddeall bod y gwaith o fireinio'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn parhau ac mai'r bwriad yw trefnu sesiwn hyfforddi ym mis Tachwedd ar gyfer aelodau'r Pwyllgor hwn ar y cyd ag Aelodau'r Pwyllgor Archwilio.

Awgrymir, felly, bod yr Aelodau yn derbyn hyfforddiant er mwyn deall meini prawf y Gofrestr Risg Gorfforaethol newydd gyda golwg ar i'r Gofrestr gael ei chyflwyno i'r cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd bwrw ymlaen gyda'r drefn a amlinellwyd.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Rheolwr Sgriwtini i gynnwys y Cynllun Gweithredu Absenoldeb Salwch a'r Gofrestr Risg Corfforaethol fel eitemau ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer mis Tachwedd.**

**3 MEDRWN MÔN**

Cafwyd cyflwyniad llafar gan Mr John R. Jones, Prif Swyddog Medrwn Môn yn rhoi sylw i'r posibilrwydd y gallai'r trydydd sector gymryd rhan yn y broses sgriwtini a'r manteision y gallai cyfranogiad y sector eu dwyn i'r broses ar ffurf profiad ac arbenigedd mewn nifer o feysydd a hefyd gyda gallu i gynnig persbectif gwahanol. Cyfeiriodd y swyddog at y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) (ac i'r cyfarwyddyd statudol oedd newydd ei gyhoeddi'n ddiweddar a thynnodd sylw'r Aelodau at Adran 5 y Cyfarwyddyd oedd yn cyfeirio'n benodol at ymgysylltu gyda'r trydydd sector ac Adran 6 sy'n awgrymu cyfethol cynrychiolwyr trydydd parti ar y Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini fel ffordd o sicrhau cyfranogiad a derbyn safbwynt cydranddeiliaid. Eglurodd mai Medrwn Môn yw'r sefydliad trosfwaol a'r pwynt cyswllt i'r mudiadau gwirfoddol ym Môn a phwysleisiodd bod yna draddodiad o gynnwys y trydydd sector yn y broses ddemocrataidd ym Môn. Rhoddodd esiampl o sut yr oedd ef yn credu y gallai mewnbwn y trydydd sector wella'r swyddogaeth sgriwtini a dywedodd bod y Cyngor Gwirfoddol yn fwy na pharod i roi cefnogaeth pe bai'r Awdurdod yn penderfynu hyrwyddo'r defnydd o gynrychiolwyr y trydydd sector o fewn sgriwtini.

Roedd yna farn gyffredinol yn y Pwyllgor y byddai ymestyn persbectif sgriwtini o fantais i'r broses. Cyfeiriodd y Rheolwr Sgriwtini at gompact rhwng Gwynedd a'r trydydd sector oedd yn nodi egwyddorion cytunedig ynglŷn â gweithdrefnau ac sy'n cael ei nodi fel arfer dda ac roedd am awgrymu y gellid ei ddwyn i sylw'r Pwyllgor. Dywedodd ei bod yn amserol yn awr i symud i'r cyfeiriad hwn ac y byddai angen mewnbwn y trydydd sector mewn perthynas â byrddau canlyniad sgriwtini.

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) sylw'r Aelodau at fodolaeth Compact Lleol Ynys Môn rhwng yr Awdurdod, y Trydydd Sector a'r Sector Iechyd a dywedodd bod y ddogfen yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd fel rhan o raglen waith Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol. Cytunwyd wedyn y byddai'r Rheolwr Sgriwtini, felly, yn cysylltu gyda'r Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) ac yn rhoi atborth mewn perthynas â chynnydd gydag adolygu Compact Lleol Ynys Môn.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r wybodaeth a'r safbwyntiau a gyflwynwyd a diolch i Brif Swyddog Medrwn Môn am ei gyflwyniad.**
- **Bod angen adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd gydag adolygu Compact Lleol Ynys Môn.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolwr Sgriwtini i gysylltu â'r Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd gydag adolygu Compact Lleol Ynys Môn.**

**4 MONITRO PERFFORMIAD CHWARTEROL - CHWARTER 1 (EBRILL - MEHEFIN) 2012/13**

Cafwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) yn cynnwys data perfformiad ar gyfer Chwarter 1 o gyfnod adrodd 2012/13 yn cynnwys cynnydd yn erbyn y pedwar blaenoriaeth gwella allweddol, i'r Pwyllgor ei ystyried.

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) sylw'r Aelodau at Gytundebau Canlyniad yr Awdurdod (Blaenoriaeth Gwella 4) fel maes lle ceir elfen o risg yn yr ystyr nad oes sicrwydd y bydd yr Awdurdod yn derbyn grant llawn a bod hwn, felly, yn faes y mae'r Swyddogion yn awyddus i'r Pwyllgor gadw golwg arno.

Roedd y canlynol yn faterion a bwysleisiwyd gan Aelodau ac yn feysydd lle yr oeddent angen cael eglurhad ac egluro pwyntiau –



DRAFT

- Rheoli Perfformiad a'r defnydd a wneir o Gronfa Arian Wrth Gefn Rheoli Perfformiad.
- Ailstrwythuro Gwasanaethau Cyllid a TG a chanlyniad hynny.
- Cytundebau Canlyniad – roedd yna bryder y gellid colli arian trwy fethu â chyflawni targedau ac fe gytunwyd y dylai'r Pwyllgor gadw golwg ar y maes hwn.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth.**

**5 CYNLLUN GWELLA DRAFFT (ADOLYGIAD PERFFORMIAD 2011/12)**

Cyflwynwyd y Cynllun Gwella drafft (Adolygiad Perfformiad) 2011/12 er sylw'r Pwyllgor.

Dygodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) sylw'r aelodau at y ffaith mai dogfen ddrafft yw'r Cynllun Gwella a bod gwaith yn parhau arni. Ar ôl ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, bydd y Cynllun drafft yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac yna i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu. Dywedodd y Swyddog fod rhaid i'r Awdurdod gynhyrchu Cynllun Gwella yn seiliedig ar ei werthusiad o berfformiad y flwyddyn flaenorol. Mae'r Cynllun drafft fel y'i cyflwynwyd yn edrych yn ôl ar 2011/12 ac yn rhoi asesiad o gynnydd yr Awdurdod yn erbyn y nodau a'r targedau a osodwyd ganddo ar gyfer y flwyddyn honno gan gynnwys dadansoddiad manwl o gynnydd yn erbyn y pum Blaenoriaeth Strategol a'r camau a gymerwyd ac sydd wedi cyfrannu at y broses honno. Mae'r Cynllun hefyd yn cyfeirio at y pedwar amcan gwella ac yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion hynny. Rhoddwyd pwyslais mawr yn ystod 2011/12 ar wella trefniadau llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod a thrwy broses o gynllunio ar y cyd, nododd y Comisiynwyr, y Pwyllgor Gwaith Cysgodol a Chadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a Sgriwtini ynghyd â'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol, 10 o themâu allweddol i dracio'r gwelliant o ran llywodraethu corfforaethol yn y Cyngor. Nodir y rhain yn y Cynllun. Mae rhan o'r Cynllun yn ymwneud yn arbennig â pherfformiad yr Awdurdod yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol ac, yn benodol, y Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) ; y Data Gwella Gwasanaethau (DGG) a'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC).

Rhoes y Rheolwr Rhaglenni a Chynllunio Busnes gyflwyniad gweledol i'r Pwyllgor ynghylch perfformiad yr Awdurdod yn erbyn DP Cenedlaethol a dygodd sylw at y patrymau cyffredinol yr oedd y data'n eu hamlygu; a hyn mewn cymhariaeth gydag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ac ar lefel Cyfadran/Gwasanaeth. Dygodd sylw hefyd at ganran y DP a oedd wedi gwella yn ystod 2011/12 ynghyd â'r rheiny a oedd yn dangos dirywiad mewn perfformiad.

Ystyriodd yr Aelodau'r Cynllun Gwella drafft yn fanwl ac yn ystod y drafodaeth arno, codwyd y materion a ganlyn –

- Mae'n hanfodol bod staff yn holl adrannau'r Cyngor yn ymwybodol o DP eu gwasanaethau ac yn gwbl gyfarwydd â nhw a bod y wybodaeth hon yn cael ei bwydo wedyn i'r broses gwerthuso staff. Pwysleisiwyd bod angen i'r Awdurdod sicrhau bod yr holl Adrannau'n gweithredu ac yn cynnal proses werthuso ar gyfer eu staff a bod y broses hon yn alinio gyda'r trefniadau cynllunio busnes a rheoli perfformiad a'u monitro'n gyson wedyn i sicrhau cydymffurfiaeth lawn.
- Bod angen sgriwtineiddio'r DP, yn enwedig y rheiny sy'n dirywio, o ran eu heffaith ar y gwasanaeth dan sylw ac ar drigolion Ynys Môn. Awgrymwyd y gellir paratoi rhyw fath o adroddiad eithriad ac y gallai fod yn ddefnyddiol o ran casglu at ei gilydd yr holl DP sy'n hanfodol o ran eu heffaith ac y dylid o'r herwydd ganolbwyntio arnynt.
- Dibyniaeth DP ar ei gilydd a'r ffaith y gall gwendidau mewn un maes gwasanaeth effeithio ar wasanaethau eraill. Dywedwyd mai'r her oedd sicrhau perfformiad sy'n gyson dda ar draws amrediad o wasanaethau. Awgrymwyd y dylid edrych ar y modd y dosberthir adnoddau ar draws gwasanaethau er mwyn sefydlu a yw'r rheiny y mae perfformiad yn uchel o ran DP yn cael mwy o adnoddau nag sydd raid ac ai'r rheiny mewn gwirionedd yw'r meysydd y mae'r Awdurdod yn dymuno neu angen rhagori ynddynt. Dylai perfformiad gymryd i ystyriaeth anghenion Ynys Môn ynghyd â chwrdd â thargedau cenedlaethol.
- Dwyn sylw at berfformiad y DP mewn perthynas â'r isod –

    - Canran y prif ffyrdd (A), ffyrdd (B) nad ydynt yn brif ffyrdd a ffyrdd (C) nad ydynt yn brif ffyrdd sydd, yn gyffredinol, mewn cyflwr gwael
    - Nifer y dyddiau calendr a gymerir i brosesu Grant Cyfleusterau i'r Anabl

- Mewn perthynas ag integreiddio gwasanaeth Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd, dygwyd sylw at bwysigrwydd cynnal llais cryf ar gyfer Ynys Môn yn y maes gwasanaeth hwn.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn y Cynllun Gwella a nodi ei gynnwys.**
- **Bod rhestr o'r holl DP hynny sy'n dirywio yn cael ei llunio ar gyfer pob pwyllgor sgriwtini penodol ynghyd â'u heffaith ar y maes gwasanaeth unigol dan sylw; ar lywodraethu corfforaethol ac ar ddinasyddion Ynys Môn yn cael eu hasesu fel y gall pob pwyllgor sgriwtini benderfynu ar gamau gweithredu priodol mewn perthynas â'r DP.**

**GWEITHREDU: Y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) ac/neu'r Rheolwr Cynllunio Busnes i baratoi rhestr ar gyfer pob pwyllgor sgriwtini yn rhestru'r holl DP sy'n dirywio ynghyd ag asesiadau o'u heffaith ar bob maes gwasanaeth unigol; ar ddinasyddion Ynys Môn ac ar lywodraethu corfforaethol yn yr Awdurdod.**

**6 GORWARIANT CYLLIDEBOL**

Cafwyd adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth a Swyddog Adran 151 Dros Dro ar y sefyllfa ar 30 Mehefin 2012 o safbwynt cyfrifon a chyllidebau corfforaethol fel oedd i'w weld yn yr adroddiad monitro refeniw chwarter cyntaf a gyflwynwyd i'r cyfarfod o'r Bwrdd Comisiynwyr a gynhaliwyd ar 3 Medi. Pwysleisiodd ac ymhelaethodd y Swyddog ar y meysydd gwasanaeth lle roedd risg o orwario ynghyd â'r cyllidebau risg corfforaethol; llithriad gyda rhai agweddau o'r rhaglen arbedion a phwysau a risgiau ariannol eraill. Y rhagamcan cyffredinol yw diffyg tebygol o £2.2m ar gyfer y flwyddyn.

Ceisiodd yr Aelodau gael eglurhad ar nifer o faterion cefndirol yn ymwneud â gorwariant gwasanaethau / corfforaethol fel oedd yn yr adroddiad. Roeddent yn arbennig o bryderus ynglyn â maint y diffyg posibl ar y cyfnod chwarter cyntaf o adrodd yn ôl a hefyd gyda'r hyn oedd yn ymddangos fel oedi cyn dechrau ar raglen o arbedion mewn rhai meysydd gwasanaeth. At hyn, yng ngoleuni'r posibilrwydd na fydd arbedion a gynlluniwyd o bosibl yn cael eu cyflawni, roedd yr Aelodau am bwysleisio bod angen i gynigion cyllidebol 2013/14 gael eu hystyried yn llawer mwy trwyadl a'u ffurfio er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r arbedion a gynlluniwyd. O ystyried y sefyllfa ar hyn o bryd, felly, roedd yr Aelodau yn awyddus i fonitro'r sefyllfa gyda'r gyllideb refeniw a chynigiwyd a derbyniwyd y dylid cynnwys gorwariannau cyllidebol fel eitem barhaol ar raglen y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol hyd ddiwedd blwyddyn ariannol 2012/13.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI:**

- **Y Rheolwr Sgriwtini i gynnwys Gorwariant ar y Gyllideb fel eitem barhaol ar raglen y Pwyllgor am weddill 2012/13.**
- **Cynghorydd E.Schofield i wasanaethu ar y Bwrdd Rhaglen i fonitro cyflawniad rhaglenni arbedion gwasanaeth.**

**7 GOHEBIAETH – GWASANAETH CYFIEITHU'R CYNGOR**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor lythyr dyddiedig 1 Awst 2012 i Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gan y Cynghorydd G. O. Parry MBE yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Grŵp Tasg Iaith y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd G. O. Parry MBE wrth y Pwyllgor ei fod yn gofyn i'r Pwyllgor gynnwys y Gwasanaethau Cyfieithu fel eitem ar ei raglen waith - hyn oll yng ngoleuni bwriadau Comisiynydd yr Iaith Gymraeg i orfodi dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i gydymffurfio â'r safonau statudol newydd mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg, a hefyd gapasiti Uned Gyfieithu'r Awdurdod, lle gwelwyd gostyngiad yn ddiweddar.



DRAFT

**Penderfynwyd cynnwys y Gwasanaethau Cyfieithu ar raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolwr Sgriwtini i gynnwys y Gwasanaethau Cyfieithu ar Raglen Waith y Pwyllgor.**

**8 BLAENRAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd Blaenraglen Waith y Pwyllgor er gwybodaeth. Roedd y Rheolwr Sgriwtini am atgoffa'r Aelodau o'r eitemau ychwanegol oedd i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 26 Tachwedd yn dilyn y penderfyniadau a wnaed yng nghyfarfod heddiw. Cynigiwyd a chytunwyd y dylid gohirio Compact Llywodraeth Cymru i gyfarfod dilynol neu, os yn briodol, iddo fod ar gael i Aelodau trwy ryw sianel arall.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r Rhaglen Waith a chynnwys Cynllun Gweithredu Absenoldeb Salwch, Cofrestr Risg Gorfforaethol, Gwasanaethau Cyfieithu a Gorwariant Cyllideb fel eitemau ychwanegol ar gyfer cyfarfod 26 Tachwedd.**
- **Gohirio ystyried Compact Llywodraeth Cymru hyd gyfarfod diweddarach.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolwr Sgriwtini i gylchu i'r holl Aelodau Sgriwtini bapur ar waith briffio cyn cynnal Pwyllgorau fel sy'n cael ei baratoi ar gyfer Cadeiryddion Sgriwtini ac Is-Gadeiryddion Grwpiau Llywio.**

**Y Cynghorydd Selwyn Williams**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD** | **26 TACHWEDD 2012** |
| **PWNC** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - AIL CHWARTER 2012-13** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO** | **Y CYNGHORYDD JOHN CHORLTON** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | **EINIR WYN THOMAS** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **EINIR WYN THOMAS (FFÔN: 2605)** |
| **Rheswm am yr adroddiad:** Ar gais y Pwyllgor Sgriwtini. | |

Ynghlwm mae adroddiad a anfonwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Tachwedd 2012. Gwahoddir y Pwyllgor Sgirwtini i gysidro'r adroddiad ynghyd â chofnodion y Pwyllgor Gwaith.

**EINIR WYN THOMAS**
**PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)** **19 TACHWEDD 2012**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ADRODDIAD I | PWYLLGOR GWAITH |
| DYDDIAD | 19 TACHWEDD 2012 |
| PWNC | ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - AIL CHWARTER 2012-13 |
| DEILYDD PORTFFOLIO | Y CYNGHORYDD JOHN CHORLTON |
| SWYDDOG(ION) ARWEINIOL | EINIR WYN THOMAS |
| SWYDDOG CYSWLLT | EINIR WYN THOMAS (FFÔN: 2605) |

**Rheswm am yr adroddiad:**

Fel gall y Pwyllgor Gwaith fod yn gyfrifol am fonitro cyllidebau ar lefel gorfforaethol.

**A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion**

1. **CEFNDIR**

**1.1** Dyma'r adroddiad monitro'r gyllideb am ail chwarter y flwyddyn ariannol. Yn Atodiad A, fe geir crynodeb o'r gwariant yn erbyn y gyllideb hyd at ddiwedd mis Medi.

**1.2** Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf adolygwyd dau brosiect mawr, sef rhaglen y cartrefi preswyl a'r rhaglen rhesymoli'r canolfannau hamdden. Roedd y ddwy raglen hyn angen cyfeiriad newydd. 'Roedd y Polisi Adnewyddu Tai yn cael ei gwblhau'n derfynol hefyd. Mae hyn yn golygu nad yw'r cyllidebau cyfalaf cysylltiedig wedi cael eu dyrannu (ynghyd â chyllideb o £1.2m a glustnodwyd ar gyfer cartrefi preswyl).

2. **CYNNYDD**

**2.1** Roedd gwariant hyd ddiwedd mis Medi yn £4.5m ar gynlluniau cyffredinol sy'n cyfateb i 27% o'r gyllideb gyfan. Mae hyn yn debyg i'r un cyfnod llynedd (£4.3m, 30%). Mae hyn oherwydd bod rhaglenni fel y Rhaglen Tair Tref (Cydgyfeiriant) a'r Rhaglen Gwelliannau i'r Mân-ddaliadau ar y blaen yn sylweddol o gymharu â'r un amser y llynedd ac oherwydd cynlluniau fel Menter Fenthyca Llywodraeth Leol sydd wedi cychwyn eleni. Mae hyn wedi ei wrthbwyso'n rhannol gan brosiectau megis yr archifdy newydd a gwblhawyd llynedd.

**2.2** Y gwariant hyd ddiwedd mis Medi ar gynlluniau tai oedd £4.7m, sef 39% o'r gyllideb gyfan. Mae'r gwariant ar yr un lefel â'r un cyfnod y llynedd (£4.3m, 38%). Mae'r gwaith dan y rhaglen SATC yn bwrw ymlaen fel y rhagwelwyd a disgwylir y bydd wedi ei gwblhau erbyn mis Tachwedd.

**2.3** Mae'r cyfanswm gwariant hyd at ddiwedd Medi yn 32% o'r gyllideb. Y rheswm am hynny yw bod y rhaglen gyfalaf wedi ei phwysoli llawer mwy tuag at ail hanner y flwyddyn; mae cynlluniau mawr fel ail-leoli Ysgol y Bont, y cynllun grantiau a benthyciadau tai sector preifat, y gwaith a raglennwyd ar dai Cyngor a'r Cynllun Cydgyfeiriant Tair Tref wedi eu pwysoli'n helaeth tuag at ail hanner y flwyddyn.

**2.4** Mae'r adroddiadau hyn fel arfer yn canolbwyntio ar gynlluniau grant a phrosiectau eraill lle gall bod risg sylweddol os yw'r prosiectau yn llithro neu yn rhedeg y tu hwnt i'r gyllideb. Fel y dywedwyd eisoes, mae nifer y prosiectau a gyllidir gyda grantiau wedi gostwng yn dilyn toriadau yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru, er bod rhai prosiectau mawr a gyllidir gyda Grantiau Ewropeaidd eisoes wedi cychwyn. Yn ogystal, mae pedwar o brosiectau ar hyn o bryd a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Un o'r rheini yw ail-leoli Ysgol y Bont. Mae'r gyllideb ar gyfer Ysgol y Bont yn £6.2m ar gyfer 2012-13 allan o gyllideb gyfan o £10.9m. Ers penodi'r contractwr mae'r rhaglen wedi ei chwblhau a rhagwelir y bydd gwariant yn £5.0m erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, ni fydd yr ailbroffilio hwn yn cael effaith ar y sefyllfa cyllid grant. Disgwylir y bydd y prosiect wedi ei gwblhau yn haf 2013.

**2.5** Yn ogystal, adroddwyd yn chwarter un, oherwydd yr oedi o ran cael derbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu mân-ddaliadau a'r ffaith bod y derbyniadau hynny'n llai, roedd y Gwasanaeth Eiddo wedi diwygio'r cynlluniau ar gyfer gweddill cyfnod y rhaglen gwelliannau mân-ddaliadau. Mae'r diwygiadau hyn wedi eu gwneud ac mae pethau'n symud ymlaen yn unol â'r disgwyl. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y diffyg yn codi o £1.1m i £2.0m ar gyfer y flwyddyn gyfan, gyda derbyniadau cyfalaf yn codi a lleihau'r diffyg yn y flwyddyn ddilynol.

**B – Ystyriaethau**

**3. ADNODDAU**

**3.1** Mae bidiau'r Cyngor eisoes wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer cyllid Cydgyfeiriant, uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae cyllid cyfatebol wedi ei glustnodi eisoes ar gyfer y cynlluniau hyn. Rhagwelir na fydd cyfleoedd cyllido pellach yn debygol o godi dan y Rhaglen Cydgyfeiriant.

**3.2** Mae'r derbyniadau cyfalaf y mae modd eu defnyddio ar gyfer eleni ac y cyllidebwyd ar eu cyfer, ar ôl effaith canlyniadau 2011-12 a'r derbyniadau hyd yma, fel a ganlyn:-

| | Cyllideb Wreiddiol £000 | Derbyniwyd hyd at Mis 6 £000 |
|---|---|---|
| Tai – CRT | | |
| Gwerthiannau Hawl i Brynu | 100 | Dim |
| Gwerthu Tir | Dim | Dim |
| Tai Sector Preifat | | |
| Gwerthu Plotiau | | |
| Taliadau a ad-dalwyd | } 200 | 25 |
| Grantiau a ad-dalwyd | | |
| Arall | | |
| Mân-ddaliadau | [250] | 389 |
| Cyffredinol | | |
| Diwydiannol | } 800 | 35 |

*Incwm Mân-ddaliadau yn erbyn cyllideb ddangosol*

*Mae cyllid yr Awdurdod yn y flwyddyn ar gyfer adleoli Ysgol y Bont yn deillio o dderbyniadau cyfalaf a ragwelir o werthu safle Ysgol y Graig yn y dyfodol.*

Disgwylir y bydd derbyniadau cyfalaf ar gyfer eiddo diwydiannol a chyffredinol yn cyrraedd y lefel a gyllidebwyd erbyn diwedd y flwyddyn. Ychydig ar ôl diwedd y chwarter cwblhawyd gwerthiant tir ym Mhenyrorsedd i Heddlu Gogledd Cymru. Gwerthwyd y tir am £350,000.

## 4. NEWIDIADAU A NEWIDIADAU POSIB ELENI

**4.1** Nid oes unrhyw newidiadau neu newidiadau posib wedi dod i'r amlwg, ar wahân i'r rheini yr adroddwyd arnynt yn chwarter un.

**4.2** Mae'r arian wrth gefn sydd heb ei ddyrannu fel a ganlyn:-

| | **Dygwyd Ymlaen 2011-12 £'000** | **Cyllideb 2012-13 £'000** | **Dyrannwyd 2012-13 £'000** | **Cyfanswm ar gael 2012-13 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid Cyfatebol/ Adfywio | 848 | Dim | 113 | 735 |
| Cronfa wrth gefn – Gwelliannau Hamdden | 195 | Dim | Dim | 195 |
| Cronfa wrth gefn – benthyca digefnogaeth | Dim | 1,000 | Dim | 1,000 |
| Cronfa wrth gefn heb ei ddyrannu (cartrefi preswyl) | 1,202 | Dim | Dim | 1,202 |
| Cronfa wrth gefn heb ei ddyrannu -Astudiaethau Dichonoldeb | 1,000<br>460 | 800<br>100 | Dim<br>30 | 1,800<br>530 |

Mae sefyllfa'r gyllideb refeniw ar hyn o bryd a'r rhagolygon ar ei chyfer yn golygu efallai y bydd rhaid torri'n ôl ar y posibilrwydd o ddefnyddio'r symiau hyn sydd heb eu dyrannu.

## 5. RISG ARIANNOL

**5.1** Y prif risgiau ariannol ar gyfer eleni yw'r risgiau sy'n ymwneud â'r prosiectau mwy a gyllidir gan Ewrop. Wrth edrych i'r dyfodol, pery risgiau'n ymwneud â darparu Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

**5.1.1** Mae'r Prosiect Arfordirol a'r Rhaglen Tair Tref yn cynnwys prosiectau adeiladu cymhleth gyda materion cydymffurfiaeth a photensial i redeg dros y gyllideb. Mae'r ddau brosiect hyn yn cael eu rheoli trwy dechnegau rheoli prosiect a oruchwylir gan y Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy.

**5.1.2** Ers yr adroddiad diwethaf mae'r Cyngor Sir wedi rhoi caniatâd i swyddogion gychwyn proses o werthuso opsiynau mewn perthynas â rhaglen rhesymoli asedau'r Cyngor. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi cychwyn a phenodwyd Local Partnerships i'w wneud. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd adroddiad ar gael tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, fel bod modd gwneud rhagor o benderfyniadau. Mae'r fenter hon yn rhedeg ochr yn ochr â rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain sy'n cynnwys sefydlu Fframwaith Gogledd Cymru ar gyfer pwrcasu gwaith adeiladu ysgolion yn unol â gofynion cyllido Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun Band A (ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi) yn mynd yn ei flaen, gydag Achos Amlinellol Strategol i'w gyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn.

| C – Goblygiadau ac Effaith | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyllid / Adran 151** | |
| **2** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| **3** | **Adnoddau Dynol** | |
| **4** | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **5** | **Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth** | |
| **6** | **Cydraddoldeb**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **7** | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **8** | **Cyfathrebu**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **9** | **Ymgynghori**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **10** | **Economaidd** | |
| **11** | **Amgylcheddol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **12** | **Trosedd ac Anhrefn**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **13** | **Cytundebau Canlyniadau** | |

## CH – Crynodeb

Roedd y gwariant ar gynlluniau cyffredinol hyd at ddiwedd Medi yn £4.5m (27% o'r gyllideb gyfan). Gwariwyd £4.7m ar gynlluniau tai (39% o'r gyllideb gyfan) hyd at fis Medi. Roedd y gwariant cyffredinol yn 32% o'r gyllideb gyfan, gan fod llawer o'r cynlluniau mwy, fel ail-leoli Ysgol y Bont, wedi eu pwysoli tuag at ail hanner y flwyddyn.

Cafwyd derbyniadau cyfalaf o £0.4m hyd at ddiwedd mis Medi. Disgwylir y bydd derbyniadau cyfalaf cyffredinol a diwydiannol yn cyrraedd y lefel a gyllidebwyd ar eu cyfer, sef £0.8m, erbyn diwedd y flwyddyn. Mae disgwyl y bydd derbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu mân-ddaliadau (arian a fydd yn cael ei ddefnyddio'n unig ar y rhaglen gwella mân-ddaliadau) £2m y tu ôl i'r proffil gwariant erbyn diwedd y flwyddyn, ond disgwylir y byddant yn dal i fyny yn y flwyddyn ddilynol.

Yn wyneb y sefyllfa ar hyn o bryd gyda'r gyllideb refeniw a'r canlyniadau a ragwelir, efallai y bydd angen torri'n ôl ar y defnydd posib o'r arian sydd heb ei ddyrannu.

Mae'r prif risgiau ariannol yn ymwneud â Chynlluniau Cydgyfeiriant, sy'n cael eu goruchwylio gan y Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy, a chyflawni rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, sy'n rhedeg ar yr un pryd â'r rhaglen rhesymoli asedau. Penodwyd Local Partnerships i wneud gwaith gwerthuso opsiynau ar gyfer y rhaglen rhesymoli asedau ac adroddir ar ganlyniad y gwaith hwnnw i'r pwyllgor yma tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Mae'r cynllun Band A (ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi) dan y rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn mynd yn ei flaen a chyflwynir yr Achos Amlinellol Strategol cyn diwedd y flwyddyn.

## D – Argymhelliad

Nodi cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf.

**Enw awdur yr adroddiad:** EINIR WYN THOMAS
**Swydd:** PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)
**Dyddiad:** 31 HYDREF 2012

| **Atodiadau:** |
| --- |
| Atodiad A: Cyllideb Cyfalaf 2012-13: Crynodeb Medi 2012 |

| **Papuau Cefndirol:** |
| --- |
| Dim |

**Atodiad A**

## Cyllideb Cyfalaf 2012-13 : Medi 2012

| Prosiectau | Cyllideb 2012-13 £'000 | Llithriad 2011-12 £'000 | Cyfanswm £'000 | Gwariant £'000 | % | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tai** | **11,040** | **913** | **11,953** | **4,664** | **39** | |
| Tai Cyngor | 9,800 | 0 | 9,800 | 4,292 | 44 | Disgwylir bydd y rhaglen SATC wedi ei chwblhau ym mis Rhagfyr. Mae gwaith newid tanwydd wedi ei raglennu i gychwyn ym mis Tachwedd ac, fel y dywedwyd eisoes, oherwydd yr oedi, mae disgwyl y bydd llithriad. Disgwylir llithriad hefyd ar y gwaith a gynlluniwyd dan y rhaglen gynnal. Mae'r rhagolygon o ran gwariant ar gyfer y flwyddyn o gwmpas £8.5m ar gyfer y rhaglen CRT yn ei chyfanrwydd. |
| Preifat-Grantiau/Benthyciadau | 1,200 | 458 | 1,658 | 370 | 22 | Mae'r polisi diwygiedig wedi ei gymeradwyo'n ddiweddar a disgwylir y bydd y gwariant yn cynyddu'n sylweddol yn ystod gweddill y flwyddyn. Disgwylir y bydd y llithriad yn debyg neu yn llai na'r llynedd. |
| Tai Fforddiadwy | 40 | 455 | 495 | 2 | 0 | Mae taliad pellach o £200,000 wedi ei wneud yn ddiweddar i Cymdeithas Tai Eryri ar gyfer y Cynllun Prynu Cartref. |
| **Addysg** | **7,218** | **408** | **7,626** | **1,129** | **15** | |
| Ail-leoli Ysgol y Bont | 6,110 | 93 | 6,203 | 636 | 10 | Mae'r rhaglen o waith y cytunwyd arni gyda'r contractwr yn rhagweld y bydd gwariant yn cyrraedd £5m erbyn diwedd y flwyddyn. Disgwylir y bydd y prosiect wedi ei gwblhau erbyn diwedd yr haf 2013 ac ni fydd y gostyngiad yn y gwariant eleni yn cael effaith ar y cyllid grant. |
| Addysg: Arall | 1,108 | 315 | 1,423 | 493 | 35 | |
| **Adfywio** | **5,962** | **-360** | **5,602** | **2,373** | **42** | |
| Datblygu Economaidd - Isadeiledd Strategol - Safleoedd ac Eiddo | 150 | 0 | 150 | 0 | 0 | Mae Swyddog Prosiect wedi ei benodi ac mae'r cynllun meistr yn cael ei ddatblygu. |
| Dat Econ : Arall | 330 | 721 | 1,051 | 114 | 11 | Mae rhan sylweddol o'r llithriad yn ymwneud ag astudiaethau dichonoldeb cyfalaf a chyllid partneriaeth. Mae'r momentwm yn cynyddu yng gweithgareddau yn y meysydd hyn ac mae'r rhan fwyaf o'r balansau hyn wedi eu hymrwymo. |
| Eiddo: Amgylchedd Arfordirol | 503 | 0 | 503 | 342 | 68 | Mae'r gwaith adeiladu ar Bier Biwmares wedi ei gwblhau yn sylweddol ac mae'r trafodaethau ynghylch y cyfrif terfynol yn parhau. |
| Eiddo: Rhaglen Wella'r Mân-ddaliadau | 535 | -1,081 | -546 | 446 | -82 | Mae'r rhaglen hon yn cael ei chyllido trwy dderbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu mân-ddaliadau. Oherwydd derbyniadau cyfalaf llai ac oedi mae'r Gwasanaeth Eiddo wedi cynhyrchu cynlluniau diwygiedig. Mae'r rhain wedi eu gweithredu ac maent yn bwrw ymlaen yn unol â'r disgwyl. Disgwylir y bydd y diffyg yn cynyddu gan £0.9m ar gyfer y flwyddyn gyfan, o £1.1m i £2.0m. |
| Rheoli Gwastraff: Safle Mwynderau - Penhesgyn | 851 | 0 | 851 | 73 | 9 | Dechreuodd gwaith ar y safle ym mis Medi. Rhaglennwyd bydd y prosiect wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. |
| Adfywio Ffisegol (3 Tref) | 1,600 | 0 | 1,600 | 586 | 37 | Mae rhan fwyaf o'r gwaith eleni yn ymwneud â Chynllun Treftadaeth Tref Caergybi sy'n codi momentwm. |
| Priffyrdd: Menter Benthyca Llywodraeth Leol 2012-13 | 1,700 | 0 | 1,700 | 777 | 46 | Gwnaed llawer o'r gwaith eisoes. Disgwylir y gellir cyflawni'r holl amcanion erbyn diwedd y flwyddyn. |
| Priffyrdd: Grant Trafnidiaeth 2012-13 | 293 | 0 | 293 | 35 | 12 | Mae gwaith bellach wedi cychwyn a disgwylir y bydd wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ac o fewn y gyllideb. |
| **Arall** | **1,898** | **1,868** | **3,766** | **981** | **26** | |
| Hamdden: Unedau Adennill Gwres | 217 | 117 | 334 | 330 | 99 | Prosiect wedi ei gwblhau. |
| Priffyrdd: Arall | 949 | 59 | 1,008 | 275 | 27 | Gwaith yn mynd yn ei flaen yn ôl y disgwyl. |
| Eiddo: Arall | 604 | 576 | 1,180 | 262 | 22 | Gwaith yn mynd yn ei flaen yn ôl y disgwyl. |
| Cynlluniau Adrannol Arall | 128 | 1,116 | 1,244 | 114 | 9 | |
| **Cyfanswm** | **26,118** | **2,829** | **28,947** | **9,147** | **32** | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD** | **26 TACHWEDD 2012** |
| **PWNC** | **ADRODDIAD CHWARTEROL MONITRO CYLLIDEB 2012-13 CYLLIDEB REFENIW AIL CHWARTER** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO** | **Y CYNGHORYDD JOHN CHORLTON** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | **PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **EINIR WYN THOMAS (EST. 2605)** |
| **Rheswm am yr adroddiad:**<br><br>Ar gais y Pwyllgor Sgriwtini. | |

Ynghlwm mae adroddiad a anfonwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Tachwedd 2012. Gwahoddir y Pwyllgor Sgriwtini i gysidro'r adroddiad ynghyd â chofnodion y Pwyllgor Gwaith.

**EINIR WYN THOMAS**
**PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)** **19 TACHWEDD 2012**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD** | **19 TACHWEDD 2012** |
| **PWNC** | **ADRODDIAD CHWARTEROL MONITRO CYLLIDEB 2012-13 CYLLIDEB REFENIW AIL CHWARTER** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO** | **Y CYNGHORYDD JOHN CHORLTON** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | **PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **EINIR WYN THOMAS (EST. 2605)** |

**Rheswm am yr adroddiad:**

Monitro'r Gyllideb Refeniw: y Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am fonitro'r gyllideb ar lefel gorfforaethol ac am wneud penderfyniadau i drosglwyddo arian neu i gywiro gorwariant o fewn yr Awdurdod – wedi ei ddirprwyo gan y Cyngor Sir.

## A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion

Hwn yw'r ail adroddiad chwarterol ar gynnydd ar gyllideb refeniw 2012-13, ac mae'n ymwneud â'r sefyllfa ar 30 Medi 2012 gyda rhagamcanion wedi eu diweddaru ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a'r cyllidebau risg gorfforaethol.

Mae'r tabl yn Atodiad A yn crynhoi gwariant yn erbyn y gyllideb refeniw broffiliedig ar gyfer pob Gwasanaeth ar gyfer ail chwarter y flwyddyn. Ceir dadansoddiad pellach yn Atodiad B (gwariant) a C (incwm). Mae incwm wedi ei isrannu i ddangos ar wahân Ffioedd a Thaliadau, Grantiau ac Incwm Arall (ad-daliadau'n bennaf).

Mae'r adroddiad yn pwysleisio'r sefyllfa gyda'r cyfrifon a'r cyllidebau corfforaethol ac yn dwyn sylw at eitemau neu batrymau sylweddol o fewn cyllidebau Gwasanaeth. Mae hefyd yn rhagamcanu'r canlyniadau ar gyfer 2012-13.

## B – Ystyriaethau

### 1. <u>CYLLIDEBAU GWASANAETH</u>

Dangosir isod y patrymau mewn perthynas â'r Gwasanaethau.

#### 1.1 Addysg

Fel yn y blynyddoedd diwethaf, mae pwysau mawr ar y gyllideb integreiddio ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae gorwariant o £320k yn erbyn y gyllideb a broffiliwyd erbyn diwedd chwarter dau, ac, er bod gwaith yn cael ei wneud i ostwng lefelau staffio, rhagwelir y bydd gorwariant o £400k erbyn diwedd y flwyddyn, gan na ddaw buddiannau'r gwaith yma'n amlwg hyd nes y 4ydd chwarter, gydag effaith blwyddyn lawn yn 2013-14.

Yn ogystal, mae'r gyllideb integreiddio gynradd yn gorwario (£78k ar chwarter 2). Gwnaethpwyd gwaith i ddod a'r gwariant yn ôl yn unol â'r proffil unwaith eto. Fodd bynnag, ni chyflawnir yr arbedion effeithlonrwydd o £200k a osodwyd yn ystod y cylch gyllideb 2012-13. Yn dilyn cwblhau'r gwaith ar y gyllideb integreiddio ar gyfer ysgolion uwchradd tuag at ddiwedd y flwyddyn galendr yma, bydd y ffocws yn cael ei droi tuag at y gyllideb integreiddio gynradd.

Yn ychwanegol, rhagwelir gorwariant ar staff lles addysg (£44k), wedi ei wrthbwyso'n rhannol gan danwariant rhagoledig ar Wasanaeth Ieuenctid (£20k).

Rhoddir hyn ragolwg cyfanswm gorwariant o £624k, sydd angen sylw. Mae hyn yn £20k yn is na'r rhagolwg ar ddiwedd y chwarter cyntaf.

**1.2 Rheoli Gwastraff**

Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld tanwariant oddeutu £170k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn welliant sylweddol o'r chwarter cyntaf, pan ragwelwyd gorwariant o £105k.

Rhagwelir y tanwariannau o £175k ar waredu gwastraff (casglu sbwriel a threth tirlenwi), £40k ar gasglu sbwriel a phrynu biniau ar olwynion ynghyd â £20k ar gostau cyffredinol safle Penhesgyn.

Gwrthbwysir y tanwariannau yma'n rhannol gan orwariannau o £55k ar gontractau Toiledau Cyhoeddus (£40k contract glanhau newydd a £15k contract tanc septig newydd).

**1.3 Priffyrdd**

Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld bydd yr incwm meysydd parcio £40k yn llai na'r targed ac, yn ogystal, mae costau na gyllidebwyd amdanynt o £31k oherwydd rhyddhawyd staff yn hwyrach na gynllinwyd ar ddiswyddiadau. Gwrthbwysir hyn yn rhannol gan arbedion staff o £30k ar Hebryngwyr Croesfannau Ysgol. Dylai'r Gwasanaeth fedru ymdopi o fewn ei adnoddau, fel adroddwyd yn chwarter 1.

**1.4 Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae risg y bydd gorwariant o hyd at £1.9 miliwn yn y Gwasanaeth oni bai y cymerir camau ar fyrder i liniaru'r sefyllfa gyfredol (o'i gymharu â £1m yn chwarter 1). Nodwyd y cynnydd yma o ganlyniad i fonitro'r gyllideb yn fanylach a gwell rhagolygon diwedd y flwyddyn. Mae hefyd yn adlewyrchu pwysau yn codi yn y flwyddyn. Y rhesymau am hyn yw fel a ganlyn:-

Gwasanaethau Plant, lleoliadau nad ydynt yn safonol - mae cynnydd wedi bod yn nifer a chost lleoliadau allanol yn ystod y cyfnod. O ganlyniad, cynyddwyd y rhagolwg gorwariant o £500k yn chwarter 1 i £748k yn chwarter 2. Ffurfiwyd Panel Llety Uwch i asesu'r holl leoliadau yn y maes yma gyda golwg ar liniaru'r broblem. Bydd hyn yn gwella'r rhagolygon yn y dyfodol ac yn gadael i ni wybod ynghynt y goblygiadau cost o alwadau'r dyfodol.

Gwasanaethau Plant, Staff Asiantaeth - yn chwarter 2 dygwyd sylw at orwariant o £120k. Er bod y Gwasanaeth yn y broses o ailstrwythuro ac apwyntio staff parhaol, yn y cyfamser ac yn ystod y cyfnod setliad, mae dal angen i'r Gwasanaeth barhau i gael ei gefnogi gan staff asiantaeth.

Gwasanaethau Oedolion - mae'r gorwariannau wedi cynyddu £307k chwarter ar chwarter, o £435k i £742k. Mae'r cynnydd yma oherwydd pwysau yn y galw yng nghartrefi nyrsio preifat yn ogystal ag o fewn gofal cartref mewnol. Fel arfer byddai'r cynnydd cost yn denu incwm ychwanegol. Mae gwaith yn parhau i ddeall yr effaith ar incwm.

Uned Darparu - nodwyd pwysau newydd, gan gynyddu'r rhagolwg gorwariant gan £270k, o £68k yn chwarter un i £338k yn chwarter dau. Nodwyd y rhain o ganlyniad i'r ymgyrch tuag at gyflawni effeithlonrwydd ac adolygiad o'r ad-daliadau ar draws gwasanaethau'r darparu a chomisiynu i sicrhau eu bod yn cael eu gosod ar lefelau cyfatebol.

**1.5 Gwasanaeth Hamdden a Diwylliant**

Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld diffyg o £168k erbyn diwedd y flwyddyn, ac mae £100k ohono oherwydd gostyngiad disgwyliedig mewn incwm, oherwydd gostyngiadau yn yr incwm o'r cwrs golff (£50k) a'r amgueddfeydd ac orielau (£50k). Mae hyn yn ostyngiad o £90k yn y rhagolwg gorwariant adroddwyd arno yn y chwarter cyntaf o £258k.

**1.6 Gwasanaethau Eraill**

Mae'r gwasanaethau eraill yn gyffredinol yn rhagweld gorwariannau. Serch hynny, dylid medru cywiro hynny, yn y rhan fwyaf o achosion, trwy gymryd camau lliniarol gan gynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn gwasanaeth os oes rhai. Mae hyn yn wahanol i'r patrwm o danwario yn y blynyddoedd diwethaf.

## 2. CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL A CHYLLIDEBAU RISG GORFFORAETHOL

| | Gwreiddiol £000 | Rhagamcan diwedd y flwyddyn £000 | Eglurhad |
|---|---|---|---|
| Lleolidadu Allsirol – Gwasanaethau Cymdeithasol | 1,559 | 0 | Disgwylir i fod o fewn y gyllideb |
| Lleoliadau Allsiriol – Addysg | 1,028 | 0 | Disgwylir i fod o fewn y gyllideb |
| Digartrefedd | 307 net | -70 | Nid yw effaith lawn diwygio'r System Les wedi ei gweld hyd yma |
| Budd-daliadau | 20,721 gros<br>28 net | +145 | Effaith rheolau budd-dal newydd ynghylch digartrefedd |
| Taliadau Llog a Dyled | 7,077 | 0 | |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 4,910 | 0 | |
| Y Dreth Gyngor | 26,704 | 0 | Risg o ostyngiad o 0.5% |
| **Rhagamcan Gorwariant** | | +75 | |

**2.1** Disgwylir bydd y gyllideb ar gyfer Digartrefedd yn dangos gwarged o £70k oherwydd y cynllun pontio a weithredwyd yn ystod cyflwyno'r trefniadau Diwygio Lles, sy'n golygu nad yw'r galw hyd yma wedi cyrraedd y lefelau a ofnwyd. Fodd bynnag, bydd newidiadau deddfwriaethol yn dod i rym ar gyfer y pedwerydd chwarter ac mae'n anodd ceisio rhagweld effaith hynny. Mae hyn ychydig yn llai na'r tanwariant o £100k yr adroddwyd yn chwarter un oherwydd gorwariant o £30k a ragwelir ar Brydlesu Sector Breifat.

**2.2** Erbyn hyn, disgwylir i'r rhagolwg gorwariant o £200k adroddwyd arno yn y chwarter cyntaf ar Wasanaethau Cymdeithasol Allsirol, ddod o fewn y gyllideb gan i nifer o'r lleoliadau drytach adael y system. Disgwylir i'r elfen addysg fod o fewn y gyllideb, fel yn chwarter 1.

**2.3** Disgwylir y bydd bwlch o £173k rhwng y budd-daliadau a dalwyd a'r cymhorthdal a dderbyniwyd. Mae hyn yn £145k yn waeth na'r gyllideb wreiddiol (dim newid o chwarter un). Y prif reswm am hyn yw'r newidiadau yn y rheolau budd-daliadau lles ar gyfer llety gwely a brecwast i bobl ddigartref. Mae'r defnydd o lety gwely a brecwast wedi ei amlygu fel mater perfformiad y bydd angen rhoi sylw iddo.

**2.4** Disgwylir i'r Gyllideb Gorfforaethol a Democrataidd fod ar darged ar ddiwedd y flwyddyn.

**2.5** Disgwylir i'r gyllideb ar gyfer incwm o'r Dreth Gyngor gwrdd â'r targed erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae risg o dangyflawni'r gyllideb incwm gan hyd at 0.5%.

## 3. RHAGLENNI ARBEDION AC ARIAN WRTH GEFN

**3.1** Rhagwelir y bydd arbedion corfforaethol na chawsant eu cyflawni hyd at £380k o ganlyniad i oedi gyda phrosiectau o fewn y Rhaglen Blaenoriaethu Fforddiadwy: S3 - Caffael £150k, S41 - Telerau ac Amodau Teithio Staff £230k. Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran telerau ac amodau staff, ond bydd angen cyflawni'r arbedion hyn i osgoi toriadau pellach yn y gwasanaeth a diswyddiadau. Yn ogystal â hynny, mae cyllidebau wedi eu tynnu yn ôl o'r gwasanaethau lle bod rhieni'n gyllidebau a grewyd yn annisgwyl.

**3.2** Sefydlwyd arian wrth gefn yn y gyllideb ar gyfer eleni. Mae'r cronfeydd hyn yn weddol fychan yn wyneb y risgiau i gyflawni'r targedau arbedion. Y prif gronfeydd wrth gefn yw:

- Cronfa wrth gefn ar gyfer llithriad ar raglenni arbedion - £335k;
- Cronfa wrth gefn ar gyfer contractau a aildendrwyd a materion eraill yr oedd ansicrwydd yn eu cylch ar adeg pennu'r gyllideb - £306k.

Ychwanegir arbedion na chyllidebwyd ar eu cyfer at y gronfa wrth gefn.

Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £30k o'r gronfa wrth gefn ar gyfer contractau. Gwnaed arbediad hefyd na chyllidebwyd ar ei gyfer o £70k yn sgil effaith ail-dendro'r rhaglen yswiriant am ran o'r flwyddyn.

**3.3** Mae prosiectau cydweithio a gymeradwywyd gan y Bwrdd Comisiynwyr yn mynd yn eu blaenau a disgwylir y bydd arbedion yn ystod y flwyddyn.

**3.4** Diswyddiadau: Cymeradwywyd cronfa wrth gefn unwaith ac am byth o £1.2m yng nghyllideb 2012-13. Mae hyn yn cael ei reoli gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y diswyddiadau angenrheidiol dan y rhaglen arbedion yn cael eu rheoli o fewn y gronfa wrth gefn sydd ar gael. Fodd bynnag, mae newidiadau gwasanaeth yn parhau ac mae'n debygol bydd angen yr holl arian wrth gefn yn y flwyddyn. Golyga hyn bydd angen rhoi rhagor o symiau o'r neilltu yn 2013-14 ar gyfer unrhyw gostau newid.

## 4. PWYSAU A RISGIAU ARIANNOL YCHWANEGOL

**4.1** Mae risgiau ariannol yn cael eu trafod yn rheolaidd gan y rheolwyr a'u monitro gan y Bwrdd Cynaliadwyedd. Nodwyd themâu cyffredin y gellir rhoi sylw iddynt fel rhan o'r Adolygiadau Gwasanaeth sydd ar y gweill. Un maes lle mae pwysau ac y dygwyd sylw ato ar ôl pennu'r gyllideb oedd y newid hwyr yn y gyfradd yswiriant cenedlaethol. Effaith hynny yw cynnydd o £110k yn y costau staffio mewn cyllidebau nad ydynt yn ymwneud ag ysgolion.

**4.2** Mae'r Grant Cytundeb Canlyniadau wedi ei dalu ar lefel is dros y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd cwrdd yn rhannol â'r Cytundeb Canlyniadau gyda Llywodraeth Cymru. Disgwylir canlyniad llynedd erbyn diwedd mis Medi a hyd oni fydd y sefyllfa derfynol yn hysbys, rhagdybir mai dim ond 75% o'r grant a dderbynnir.

**4.3** Mae'r cynllun gweithredu mewn ymateb i'r arolygiad diweddar gan Estyn yn cael ei baratoi a bydd yn arwain at wariant ychwanegol. Rhagwelir y bydd cyfraniad o'r gronfa wrth gefn ar gyfer perfformiad ar gael.

## 5. GWEITHREDU SY'N MYND YN EI FLAEN

Adolygwyd y sefyllfa ariannol yn fanwl gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth i ddadansoddi'r gwahaniaethau rhwng chwarter 1 a chwarter 2 a lle bo angen blaenoriaeth gweithredu gywirol.

Mae gwaith manwl yn cael ei flaenoriaethu ar gyllidebau ar gyfer integreiddio Addysg a Gofal Cymdeithasol i edrych ar lefelau gweithgarwch, mynediad i'r gwasanaethau a chymariaethau â Chynghorau arall, er mwyn cytuno ar sut gellir rheoli'r galw am y gwasanaethau yma mewn ffordd pwyllog. Bydd hyn yn broses hynod o egnïol a thrylwyr.

Sefydlwyd Bwrdd Mewnol i gefnogi cyflawni arbedion sydd eu hangen i gyflawni'r gyllideb Gofal Cymdeithasol, a fydd yn cynnwys heriadau allanol.

Yn ogystal, gwneir gwaith pellach ar gyllideb Hamdden i asesu os oes digon o waith wedi ei wneud i gyflawni'r arbedion a ddisgwylir o'r penderfyniadau a wnaethpwyd fel rhan o'r gyllideb 2012-13 cytunedig.

Gwneir rhagor o waith hefyd ar arian wrth gefn a balansau i ddarparu ar gyfer trafodaethau'r gyllideb 2013-14.

## 6. Y SEFYLLFA GYFFREDINOL

**6.1** Mae risgiau sylweddol o orwario mewn pedair cyllideb gwasanaeth a allai fod cymaint â £2.5m ar y gwaethaf.

**6.2** Rhagwelir y bydd gorwariant o £75k yn y cyllidebau risg gorfforaethol.

**6.3** Rhagwelir diffyg am y flwyddyn o hyd at £2.6m.

| **C – Goblygiadau ac Effaith** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyllid / Adran 151** | awdur |
| **2** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| **3** | **Adnoddau Dynol** | |
| **4** | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **5** | **Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth** | |
| **6** | **Cydraddoldeb**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **7** | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **8** | **Cyfathrebu**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **9** | **Ymgynghori**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **10** | **Economaidd** | |
| **11** | **Amgylcheddol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **12** | **Trosedd ac Anhrefn**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **13** | **Cytundebau Canlyniadau** | |

| CH – Crynodeb |
|---|
| Rhagwelir diffyg o hyd at £2.6m ar gyfer y flwyddyn fel a ganlyn:<br><br>Rhagwelir gorwariant o £75k yn y cyllidebau risg gorfforaethol (wedi ei ostwng o £245k yn chwarter un).<br><br>Erbyn hyn, disgwylir i'r rhagolwg gorwariant o £200k ar agweddau corfforaethol o'r rhaglen arbedion, ddod o fewn y gyllideb.<br><br>Mae risgiau sylweddol o orwario mewn pedair o gyllidebau gwasanaeth a allai fod cymaint â £2.5m ar y gwaethaf. Mae'r sefyllfa gyffredinol wedi gwaethygu gan £750k ers chwarter un.<br><br>Mae camau sylweddol a chadarn yn cael eu cymryd i ostwng y gorwariant posib ac mae angen monitro hyn a dod ag ef i sylw'r aelodau ar sail reolaidd. |

| D – Argymhelliad |
|---|
| Nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r cynnig bod cynlluniau manwl yn cael eu paratoi ar gyfer pob un o'r meysydd risg uchod i'w monitro bob mis. |

**Enw awdur yr adroddiad: EINIR WYN THOMAS**
**Teitl Swydd: PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)**
**Dyddiad: 9 TACHWEDD 2012**

| Atodiadau: |
|---|
| A - Monitro Cyllideb Refeniw 2012-13 – Crynodeb.<br>B - Monitro Cyllideb Refeniw 2012-13 – Dadansoddiad fesul Gwasanaeth a Grŵp Gwariant – Gwariant yn erbyn Cyllideb Proffil.<br>C - Monitro Cyllideb Refeniw 2012-13 – Dadansoddiad fesul Gwasanaeth a Grŵp Gwariant – Incwm yn erbyn Proffil y Gyllideb. |
| **Papurau Cefndirol:** |
| |

# MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2012-13
# REVENUE BUDGET MONITORING 2012-13

### Cyfnod i 30fed o Fedi 2012/ Period to 30th September 2012

### Crynodeb / Summary

| | CYLLIDEB<br>BUDGET 2012-13 £'000 | PROFFIL CYLLIDEB<br>PROFILED BUDGET £'000 | TALIADAU HYD YMA<br>PAYMENT TO DATE £'000 | GWARIANT YN ERBYN CYLLIDEB PROFFIL<br>EXPEDNITURE AGAINST PROFILED BUDGET £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes / Lifelong Learning** | | | | |
| Gwasanaeth Addysg/ Education Service | 48,576 | 22,634 | 24,188 | 1,554 |
| **Dirprwy Prif Weithredwr / Deputy Chief Executive** | | | | |
| Gwasanaeth Cyllid/ Finance Service | 789 | 1,363 | 1,317 | -46 |
| Gwasanaeth Technolog Gwybodaeth a Chyfathrebu/Information Comm Technology Service | 96 | 709 | 861 | 152 |
| Gwasanaeth Adnoddau Dynol / Human Resources Service | 24 | 342 | 382 | 40 |
| Gwasanaeth Archwilio/ Audit Service | 0 | 110 | 133 | 23 |
| Gwasanaeth Polisi/ Policy Service | -283 | 308 | 469 | 161 |
| Gwasanaethau Pwyllgorau a Chyfreithiol/ Committee and Legal Services | 173 | 594 | 579 | -15 |
| Uwch Dim Arweinyddiaeth /Senior Leadership Team | 988 | 492 | 412 | -80 |
| **Datblygu Cynaliadwy/ Sustainable Development** | | | | |
| Gwasanaeth Cynllunio/ Planning Service | 1,669 | 646 | 544 | -102 |
| Gwasanaethau Amgylcheddol/ Environmental Services | 1,518 | 727 | 743 | 16 |
| #REF! | 8,606 | 4,696 | 3,831 | -865 |
| Gwasanaeth Eiddo/ Property Service | 1,009 | 883 | 686 | -198 |
| Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth/ Highways and Transportation Service | 10,930 | 5,445 | 5,407 | -37 |
| Gwasanaeth Datblygu Economaidd/ Economic Development Service | 1,432 | 508 | 965 | 458 |
| **Cymuned/ Community** | | | | |
| Gwasanaeth Tai/ Housing Service | 952 | 1,245 | 2,400 | 1,155 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol/ Social Services | 22,706 | 12,206 | 12,857 | 651 |
| Gwasanaethau Gofal Môn/ Môn Care Services | 3,467 | 862 | 1,237 | 376 |
| Gwasanaeth Hamdden & Diwylliant / Leisure & Culture Service | 4,083 | 1,720 | 1,738 | 18 |
| **Cyllidebau sy'n Risg Corfforaethol/ Budgets treated as Corporate Risks** | | | | |
| All Sirol Addysg/ Out of County Education | 1,028 | 375 | 403 | 28 |
| All Sirol Gwasanaethau Cymdeithasol/ Out of County Social Services | 1,559 | 681 | 598 | -83 |
| Budd-daliadau/ Benefits | 28 | 3,666 | 4,592 | 926 |
| Digartrefedd/ Homelessness | 307 | 69 | 301 | 233 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd / Corporate and Democratic Costs | 4,910 | 1,298 | 717 | -581 |
| Cynnal a chadw Adeiliadau /Building Maintenance | 25 | 0 | 104 | 104 |
| | **114,593** | **61,578** | **65,465** | **3,888** |
| **YCHWANEGU / ADD** | | | | |
| **Cyllido Cyfalaf a Llog / Capital Financing and Interest** | -46 | | | |
| **Rhyddhad Dewisol o'r Dreth /Discretionary Rate Relief** | 35 | | | |
| **Cronfeydd Wrth Gefn / Contingencies** | 3,191 | | | |
| **Cytundeb Canlyniad / Outcome Agreement** | -412 | | | |
| **Ardollau / Levies** | 3,223 | | | |
| **Arbedion Corfforaethol / Corporate savings** | -380 | | | |
| **Cyfraniad o falansau / Contribution from balances** | -1,200 | | | |
| **Trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn /Transfers during year** | 31 | | | |
| | **119,035** | | | |

**MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2012-13**

**Cyfnod i 30fed o Fedi 2012**

| **Mynegai** |
|---|
| + = Gwaeth na'r gyllideb broffiliedig |
| - = Gwell na'r gyllideb broffiliedig |

**Dadansoddiad fesul Gwasanaeth a Grwp Gwariant - Gwariant yn erbyn Cyllideb Proffil**

| ADRAN | GWASANAETH | Gweithwyr £'000 | Adeiladau £'000 | Cludiant £'000 | Cyflenwadau a Gwasanaethau £'000 | Taliadau Trydydd Parti £'000 | Taliadau Trosglwyddo £'000 | Ad-daliadau a Chostau Cefnogaeth £'000 | Is-gyfanswm Gwariant £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes** | Gwasanaeth Addysg - Cyllideb Ysgolion wedi'i Ddirprwyo | 1313 | -517 | -12 | -463 | 629 | 0 | 821 | 1771 |
| | Gwasanaeth Addysg - Eithriadau Ysgolion | 901 | -150 | 97 | -719 | 5 | -21 | 0 | 113 |
| | Gwasanaeth Addysg - Addysg Bellach | 8 | 0 | 3 | -1 | 0 | 0 | 0 | 10 |
| | Gwasanaeth Addysg - Rheolaeth a Chefnogaeth | -68 | 2 | -3 | -5 | 1 | 0 | -97 | -170 |
| | Grant Effeithiolrwydd Ysgolion | 27 | 0 | 0 | 105 | 0 | 0 | 0 | 132 |
| | Cymorth | 11 | 3 | 2 | -87 | 27 | 0 | 0 | -44 |
| | Addysg Oedolion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Ieuenctid a Chymuned | 25 | -12 | -7 | -15 | 0 | 0 | 0 | -9 |
| | **Cyfanswm Addysg Gydol Oes** | **2217** | **-674** | **80** | **-1185** | **662** | **-21** | **724** | **1803** |
| **Dirprwy Prif Weithredwr** | Gwasanaeth Cyllid - Cyllid | -188 | 0 | -2 | 90 | 0 | 0 | 0 | -100 |
| | Gwasanaeth Cyllid - Refeniw a Budd Daliadau | -22 | 0 | -1 | 49 | 0 | 0 | 0 | 26 |
| | Gwasanaeth Technolog Gwybodaeth a Chyfathrebu | 43 | 10 | -3 | 127 | 0 | 0 | 0 | 177 |
| | Gwasanaeth Polisi | 35 | 0 | 0 | 124 | 0 | 0 | 0 | 159 |
| | Gwasanaeth Archwilio | -26 | 0 | 0 | 49 | 0 | 0 | 0 | 23 |
| | Adnoddau Dynol | -39 | -6 | -4 | 85 | 0 | 0 | 0 | 36 |
| | Gwasanaethau Pwyllgorau a Chyfreithiol | 70 | 0 | -3 | 6 | 0 | 0 | 0 | 73 |
| | Uwch Dim Arweinyddiaeth | -75 | 0 | 0 | 0 | -5 | 0 | 0 | -80 |
| | **Cyfanswm Dirprwy Prif Weithredwr** | **-202** | **4** | **-13** | **530** | **-5** | **0** | **0** | **314** |
| **Datblygu Cynaliadwy** | Gwasanaeth Cynllunio - Gweinyddu | 20 | 0 | 0 | -3 | 0 | 0 | 0 | 17 |
| | Gwasanaeth Cynllunio - Rheolaeth Cynllunio | 8 | 0 | -3 | 52 | 0 | 0 | 0 | 57 |
| | Gwasanaeth Cynllunio - Rheolaeth Adeiladu | 4 | 1 | 1 | -20 | 0 | 0 | 0 | -14 |
| | Gwasanaeth Cynllunio - Eraill | -85 | 2 | -4 | -82 | 0 | 0 | 0 | -169 |
| | Gwasanaethau Amgylcheddol - Gweinyddu | 0 | 0 | 0 | -3 | 0 | 0 | 0 | -3 |
| | Gwasanaethau Amgylcheddol - Iechyd yr Amgylchedd | 9 | 0 | -10 | -11 | 0 | 0 | 0 | -12 |
| | Gwasanaethau Amgylcheddol - Safonau Masnach | -1 | 0 | 3 | 17 | 0 | 0 | 0 | 19 |
| | Gwasanaethau Amgylcheddol - Marchnadoedd | 22 | -2 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 23 |
| | Gwasanaethau Amgylcheddol - Cofrestrydd | 2 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Gweinyddu | -86 | 0 | -5 | -18 | -1 | 0 | 0 | -110 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Adeiladau Gweinyddol | 13 | 9 | 0 | 7 | 0 | 0 | 0 | 29 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Eiddo Amrywiol | 0 | -20 | 0 | 11 | 0 | 0 | 0 | -9 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Arfordir | 21 | -45 | -3 | -51 | 0 | 0 | 0 | -78 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Stadau ddiwydiannol | 0 | -49 | 0 | -4 | 0 | 0 | 0 | -53 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Mân Ddaliadau | 0 | 96 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 | 100 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Contract Glanhau | -17 | -11 | 2 | -23 | 0 | 0 | 0 | -49 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Gweinyddu | 117 | 3 | 0 | 22 | 0 | 0 | 0 | 142 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Cludiant | 22 | 15 | -1 | 67 | -85 | -40 | 0 | -22 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Gweinyddu Gwaith | -20 | -2 | -10 | -31 | 0 | 0 | 0 | -63 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Strwythurau | 0 | 0 | 0 | 47 | 0 | 0 | 0 | 47 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Hawliau Tramwy Cyhoeddus | -2 | 0 | 1 | -105 | 0 | 0 | 10 | -96 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Traffig, Diogelwch y Ffyrdd a Parcio | -11 | 3 | 0 | -30 | 0 | 0 | 0 | -38 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Cynnal a Chadw | 0 | -1 | 0 | -64 | 0 | 0 | 0 | -65 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Goleuo | 0 | 0 | 0 | -129 | 0 | 0 | 0 | -129 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth- Rheolaeth Fflyd | 64 | 3 | 117 | 6 | 0 | 0 | 0 | 190 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth- Gwaith Codir Amdano | 0 | 4 | 0 | 366 | 0 | 0 | 12 | 382 |
| | Gwasanaethau Rheoli Gwastraff - Gwasanaethau Glanhau | 0 | 1 | 0 | -95 | 0 | 0 | 0 | -94 |
| | Gwasanaethau Rheoli Gwastraff - Casglu a Gwaredu Gwastraff | -68 | 24 | 5 | -608 | -33 | 0 | 79 | -601 |
| | Gwasanaethau Rheoli Gwastraff - Cyflusterau Cyhoeddus | 0 | 38 | 0 | -2 | 2 | 0 | 0 | 38 |
| | Gwasanaeth Datblygu Economaidd | 502 | 18 | 8 | 132 | 0 | 0 | 0 | 660 |
| | **Cyfanswm Datblygu Cynaliadwy** | **514** | **87** | **101** | **-544** | **-117** | **-40** | **101** | **102** |
| **Cymuned** | Gwasanaeth Tai | 57 | -16 | 4 | 474 | 421 | 0 | -216 | 724 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Addysg Oedolion | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Rheoli a Chefnogaeth | -18 | 0 | 2 | -8 | 0 | 0 | 0 | -24 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Strategaeth Gwasanaeth | 5 | 0 | 0 | 6 | 0 | 0 | 0 | 11 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Plant a Theuleuodd | -43 | 6 | -24 | 192 | 254 | 0 | 0 | 385 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau Henoed | 8 | 0 | 2 | -18 | 272 | 0 | 0 | 264 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion o Dan 65 Anableddau Corfforol | -12 | 0 | -5 | 1 | -5 | 0 | 0 | -21 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Anableddau Dysgu | 10 | 0 | -11 | -1 | -104 | 0 | 0 | -106 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Anghenion Iechyd Meddwl | 18 | 9 | -9 | 1 | 87 | 0 | 0 | 106 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Cyflogaeth wedi'i Chynnal | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| | Gwasanaethau Gofal Môn | -574 | -49 | -162 | 290 | 108 | 0 | 0 | -387 |
| | Hamdden a Threftadaeth - Gweinyddu | 2 | 5 | 1 | -5 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| | Hamdden a Threftadaeth - Llyfrgelloedd | -22 | 4 | -4 | -25 | 0 | 0 | 0 | -47 |
| | Hamdden a Threftadaeth - Diwylliant a Threftadaeth | 9 | 18 | -1 | 12 | 0 | 0 | 0 | 38 |
| | Hamdden a Threftadaeth - Hamdden a Chwaraeon | 3 | 6 | 1 | -5 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| | Hamdden a Threftadaeth - Treftadaeth | 35 | 49 | 6 | -2 | 0 | 0 | 0 | 88 |
| | Talnet | -3 | 0 | -2 | 293 | 0 | 0 | 0 | 288 |
| | **Cyfanswm Cymuned** | **-525** | **32** | **-202** | **1207** | **1034** | **0** | **-216** | **1330** |
| | **Cyllidebau sy'n cael eu trin fel Risg Corfforaethol** | | | | | | | | |
| | All Sirol Addysg | 0 | 0 | 0 | 0 | 90 | 0 | 0 | 90 |
| | All Sirol Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 | 0 | 0 | 0 | -73 | 0 | 0 | -73 |
| | Budd-daliadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 872 | 0 | 872 |
| | Digartrefedd | 0 | 7 | 0 | 7 | 0 | 224 | 0 | 238 |
| | Costau Corfforaethol a Democrataidd | -41 | -171 | -35 | -277 | 0 | 0 | 0 | -524 |
| | Cynnal a chadw Adeiliadau | 642 | 47 | 34 | 1238 | 0 | 0 | 0 | 1961 |
| | **CYFANSWM FESUL GRWP** | **2605** | **-668** | **-35** | **976** | **1591** | **1035** | **609** | **6113** |

## MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2012-13

**Cyfnod i 30fed o Fedi 2012**

| Mynegai |
|---|
| + = Gwaeth na'r gyllideb broffiliedig |
| - = Gwell na'r gyllideb broffiliedig |

### Dadansoddiad fesul Gwasanaeth a Grwp Gwariant - Gwariant yn erbyn Cyllideb Proffil

| ADRAN | GWASANAETH | Ffioedd a Phrisiau £'000 | Grantiau £'000 | Incwm Arall £'000 | Is-gyfanswm Incwm £'000 | Gwariant Net £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes** | Gwasanaeth Addysg - Cyllideb Ysgolion wedi'i Ddirprwyo | -117 | 0 | -127 | -244 | 1527 |
| | Gwasanaeth Addysg - Eithriadau Ysgolion | 65 | -49 | -5 | 11 | 124 |
| | Gwasanaeth Addysg - Addysg Bellach | -3 | 0 | 0 | -3 | 7 |
| | Gwasanaeth Addysg - Rheolaeth a Chefnogaeth | 8 | 0 | 8 | 16 | -154 |
| | Grant Effeithiolrwydd Ysgolion | 0 | 0 | 0 | 0 | 132 |
| | Cymorth | -7 | -22 | 29 | 0 | -44 |
| | Addysg Oedolion | 0 | 0 | -29 | -29 | -29 |
| | Ieuenctid a Chymuned | 0 | 0 | 0 | 0 | -9 |
| | **Cyfanswm Addysg Gydol Oes** | **-54** | **-71** | **-124** | **-249** | **1554** |
| **Dirprwy Prif Weithredwr** | Gwasanaeth Cyllid - Cyllid | 2 | 0 | 34 | 36 | -64 |
| | Gwasanaeth Cyllid - Refeniw a Budd Daliadau | -5 | -2 | 0 | -7 | 19 |
| | Gwasanaeth Technolog Gwybodaeth a Chyfathrebu | -26 | 0 | 6 | -20 | 157 |
| | Gwasanaeth Polisi | 2 | 0 | 0 | 2 | 161 |
| | Gwasanaeth Archwilio | 0 | 0 | 0 | 0 | 23 |
| | Adnoddau Dynol | -1 | 0 | 1 | 0 | 36 |
| | Gwasanaethau Pwyllgorau a Chyfreithiol | -115 | 0 | 27 | -88 | -15 |
| | Uwch Dim Arweinyddiaeth | 0 | 0 | 0 | 0 | -80 |
| | **Cyfanswm Dirprwy Prif Weithredwr** | **-143** | **-2** | **68** | **-77** | **237** |
| **Datblygu Cynaliadwy** | Gwasanaeth Cynllunio - Gweinyddu | 0 | 0 | 0 | 0 | 17 |
| | Gwasanaeth Cynllunio - Rheolaeth Cynllunio | -14 | 0 | 14 | 0 | 57 |
| | Gwasanaeth Cynllunio - Rheolaeth Adeiladu | 24 | 0 | -23 | 1 | -13 |
| | Gwasanaeth Cynllunio - Eraill | 9 | -3 | 0 | 6 | -163 |
| | Gwasanaethau Amgylcheddol - Gweinyddu | 0 | 0 | 0 | 0 | -3 |
| | Gwasanaethau Amgylcheddol - Iechyd yr Amgylchedd | -29 | 0 | 32 | 3 | -9 |
| | Gwasanaethau Amgylcheddol - Safonau Masnach | 0 | 0 | -4 | -4 | 15 |
| | Gwasanaethau Amgylcheddol - Marchnadoedd | -2 | 0 | 4 | 2 | 25 |
| | Gwasanaethau Amgylcheddol - Cofrestrydd | -16 | 0 | 0 | -16 | -13 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Gweinyddu | 1 | 0 | -1 | 0 | -110 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Adeiladau Gweinyddol | -24 | 0 | -1 | -25 | 4 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Eiddo Amrywiol | -5 | 0 | 0 | -5 | -14 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Arfordir | 31 | 6 | 0 | 37 | -41 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Stadau diwydiannol | -19 | 0 | 0 | -19 | -72 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Mân Ddaliadau | -3 | 0 | 0 | -3 | 97 |
| | Gwasanaeth Eiddo - Contract Glanhau | 0 | 0 | -14 | -14 | -63 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Gweinyddu | -4 | 0 | -20 | -24 | 118 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Cludiant | -31 | 0 | 1 | -30 | -52 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Gweinyddu Gwaith | 34 | 0 | 0 | 34 | -29 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Strwythurau | 0 | 0 | 0 | 0 | 47 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Hawliau Tramwy Cyhoeddus | 0 | 0 | 47 | 47 | -49 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Traffig, Diogelwch y Ffyrdd a Parcio | 19 | 0 | 0 | 19 | -19 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Cynnal a chadw | 0 | 0 | 0 | 0 | -65 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth- Goleuo | 0 | 0 | 0 | 0 | -129 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth - Rheolaeth Fflyd | 0 | 0 | -1 | -1 | 189 |
| | Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth- Gwaith Codir Amdano | 0 | 0 | -430 | -430 | -48 |
| | Gwasanaethau Rheoli Gwastraff - Gwasanaethau Glanhau | 0 | 0 | 0 | 0 | -94 |
| | Gwasanaethau Rheoli Gwastraff - Casglu a Gwaredu Gwastraff | -129 | 0 | -77 | -206 | -807 |
| | Gwasanaethau Rheoli Gwastraff - Cyflusterau Cyhoeddus | 0 | 0 | 0 | 0 | 38 |
| | Gwasanaeth Datblygu Economaidd | -175 | 64 | -91 | -202 | 458 |
| | **Cyfanswm Datblygu Cynaliadwy** | **-333** | **67** | **-564** | **-830** | **-728** |
| **Cymuned** | Gwasanaeth Tai | -3 | 434 | 0 | 431 | 1155 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Addysg Oedolion | 0 | 0 | 1 | 1 | 3 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Rheoli a Chefnogaeth | -2 | 0 | 0 | -2 | -26 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Strategaeath Gwasanaeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 11 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Plant a Theuleuodd | -38 | -51 | -1 | -90 | 295 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau Henoed | 29 | 0 | 9 | 38 | 302 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion o Dan 65 Anableddau Corfforol | -11 | 0 | 0 | -11 | -32 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Anableddau Dysgu | 11 | 0 | 2 | 13 | -93 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Anghenion Iechyd Meddwl | 7 | 0 | 3 | 10 | 116 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Cyflogaeth wedi'i Chynnal | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| | Gwasanaethau Gofal Môn | -6 | 0 | 769 | 763 | 376 |
| | | | | | 0 | |
| | Hamdden a Threftadaeth - Gweinyddu | 0 | 0 | -1 | -1 | 2 |
| | Hamdden a Threftadaeth - Llyfrgelloedd | 13 | 0 | 1 | 14 | -33 |
| | Hamdden a Threftadaeth - Diwylliant a Threftadaeth | 35 | -20 | -1 | 14 | 52 |
| | Hamdden a Threftadaeth - Hamdden a Chwaraeon | 0 | 0 | -2 | -2 | 3 |
| | Hamdden a Threftadaeth - Treftadaeth | -76 | -34 | 12 | -98 | -10 |
| | Talnet | -173 | 0 | -38 | -211 | 77 |
| | **Cyfanswm Cymuned** | **-214** | **329** | **754** | **869** | **2199** |
| | **Cyllidebau sy'n cael eu trìn fel Risg Corfforaethol** | | | | | |
| | All Sirol Addysg | -62 | 0 | 0 | -62 | 28 |
| | All Sirol Gwasanaethau Cymdeithasol | -11 | 0 | 1 | -10 | -83 |
| | Budd-daliadau | 64 | -10 | 0 | 54 | 926 |
| | Digartrefedd | -6 | 0 | 0 | -6 | 232 |
| | Costau Corfforaethol a Democrataidd | -12 | 0 | -45 | -57 | -581 |
| | Cynnal a chadw Adeiliadau | -1 | 0 | -1856 | -1857 | 104 |
| | **CYFANSWM FESUL GRWP** | **-772** | **313** | **-1766** | **-2225** | **3888** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **26 TACHWEDD 2012** |
| **TEITL:** | **RHESYMOLI PARTNERIAETHAU** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETH - POLISI** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **ARWEINYDD Y CYNGOR** |

1.0 **Cefndir**

1.1 Fe gyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Tachwedd 2012 yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r gwaith o Resymoli Partneriaethau ar y cyd gyda Cyngor Gwynedd. Cyflwynwyd adroddiad i'r pwyllgor hwn ar y mater yn gynharach eleni ar 16 Chwefror 2012.

1.2 Mae'r Pwyllgor eisoes wedi ystyried y trefniadau arfaethedig ar gyfer craffu gwaith y Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y Cyd newydd. Wrth i ni bellach fynd ati i sefydlu'r Uned newydd a rhaglenni gwaith mae'n bwysig sicrhau bod gwaith y Bwrdd ar y Cyd yn cael ei graffu gan y ddau Gyngor.

2.0 **Argymhelliad**

2.1 Argymhellir y dylid adrodd ymhellach i'r Pwyllgor hwn yn ystod Chwarter 4 ar waith yr Uned newydd i gynnwys costau sefydlu'r Uned a threfniadau craffu i'r dyfodol.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaeth - Polisi**
**16.11.12**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad** | **19 TACHWEDD 2012** |
| **Pwnc** | **ADOLYGU RHESYMOLI PARTNERIAETHAU** |
| **Deilydd Portffolio** | **ARWEINYDD Y CYNGOR** |
| **Swyddog(ion) sy'n arwain** | **PENNAETH GWASANAETH - POLISI** |
| **Swyddog Cyswllt** | **RHEOLWR STRATEGAETH POLISI** |
| **Natur a rheswm dros adrodd**<br><br>**Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Adolygiad Rhesymoli Partneriaethau gyda Chyngor Gwynedd a sefydlu uned gefnogaeth.** | |

**A – Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw**

**1.0 Cefndir**

1.1. Cyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd Comisiynwyr ym Mawrth 2012 yn nodi'r cyd-destun ar gyfer adolygiad ar sail genedlaethol, rhanbarthol ac isranbarthol. Mae hyn yn golygu creu Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y cyd rhwng Ynys Môn a Gwynedd i gynllunio, comisiynu a llywodraethu gwaith y partneriaethau cyfredol ar y cyd - y BGLI, Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Plant a Phobl Ifanc a Diogelwch Cymunedol.

1.2. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r strwythur llywodraethu arfaethedig dan y Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y cyd, gan gynnwys sefydlu Bwrdd Cyflawni sydd yn adrodd i'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y Cyd a sefydlu Uned Gefnogaeth ar y Cyd i ddwyn ynghyd staff o'r partneriaethau cyfredol. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn cyfeirio at y Bwrdd Prosiect a sefydlwyd i gyflawni'r prosiect a'r angen i fwrw ymlaen i wneud gwaith ar sefydlu Uned Gefnogaeth ar y cyd.

1.3. Derbyniwyd yr adroddiad gan y Bwrdd y Comisiynwyr fel sail ar gyfer symud ymlaen ac mae'n gyson gyda disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch Rhesymoli Partneriaethau. Derbyniwyd adroddiad tebyg gan Fwrdd Cyngor Gwynedd. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i gyfarfod ar y cyd o Fyrddau Gwasanaeth Lleol Ynys Môn a

Gwynedd ar 18 Hydref 2012.

**2.0 Partneriaethau Cyfredol**

2.1. Wrth symud ymlaen mae'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y cyd wedi cydnabod bod angen i'r strwythur Partneriaeth cyfredol barhau hyd nes y bydd yr Uned Gefnogaeth newydd yn weithredol. Pan adroddwyd ym Mawrth 2012, rhagwelwyd y byddai'r Uned newydd wedi ei sefydlu erbyn 1 Hydref 2012. Fodd bynnag, ni fu modd gwneud hynny oherwydd anawsterau recriwtio.

**2.0 Yr Uned Gefnogaeth, Recriwtio a Throsglwyddo Staff**

3.1. Mae'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y cyd wedi rhoi gorchwyl i'r Bwrdd Prosiect ddatblygu Uned Gefnogaeth Integredig newydd. Wrth ddatblygu model newydd, mae'r Bwrdd Prosiect yn cydnabod yr angen i sicrhau arbedion trwy ostwng costau gweithredu a meysydd dyblygu. Mae'r Bwrdd wedi bod yn gweithio ar ddatblygu model ar sail cyflawni arbedion o 10% o gymharu â'r costau staffio craidd ym mhob Cyngor. Ceir manylion am y costau staffio presennol yn Atodiad 1.

3.2. Mae'r gwaith o recriwtio i'r Uned newydd eisoes wedi cychwyn ac mae'r swyddi uwch wedi eu hysbysebu yn y Gwanwyn - un Uwch Reolydd ar gyfer y Bartneriaeth a 4 o Reolwyr Cyflawni (Perfformiad a Busnes, Diogelwch Cymunedol, Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Phlant a Phobl Ifanc). Cafodd rhai o'r swyddi hyn eu hailhysbysebu. Recriwtiwyd i'r swyddi uwch trwy ganolfan asesu gyda mewnbwn gan sefydliadau partner. Erbyn hyn mae'r holl swyddi wedi eu llenwi ac eithrio swydd Rheolwr Cyflawni - Plant a Phobl Ifanc. Mae hon yn parhau i fod yn risg ac mae'r opsiynau yn cael sylw ar hyn o bryd. Bwriedir yn awr y bydd yr Uwch Dîm yn cychwyn yn ei waith fis nesaf.

3.3. Mae angen cwblhau'r strwythur staffio manwl y mis hwn i ganiatáu ar gyfer ymgynghori gyda staff. Bydd staff yn trosglwyddo i'r Uned newydd yn Chwarter 4.

3.4. Mae Prif Weithredwyr y ddau Gyngor wedi cytuno, mewn perthynas â'r prosiect penodol hwn, mai Gwynedd fydd yn lletya'r Uned newydd. Bydd staff cyfredol y Partneriaethau felly yn trosglwyddo i Wynedd dan drefniadau TUPE.

3.5. Yn ogystal, mae nifer o swyddi yn y gwahanol gyfadrannau sydd yn cael eu cyllido gyda grant ac sydd yn cefnogi gwaith y Partneriaethau cyfredol. Bwriedir y bydd rhai o'r swyddi hyn yn trosglwyddo i'r Uned newydd i'w hadolygu ymhellach yn ystod 2013-14 a

thu draw i hynny, gan ddibynnu ar y grantiau sydd ar gael a'r rhaglenni gwaith. Ni fydd staff sy'n darparu'r Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf yn Ynys Môn yn trosglwyddo i'r Uned newydd.

4.0. Materion a Risgiau Ariannol Eraill

4.1. Bwriedir cwrdd â chostau cydweithio o'r cyllidebau presennol gan wneud arbedion hefyd. Mae trafodaethau wrthi'n cael eu cynnal i sicrhau hyn.

4.2. Yn wyneb yr angen i gytuno ar strwythurau staffio a chwblhau trafodaethau eraill gyda Gwynedd ynghylch rhannu costau, argymhellir y dylid cyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith yn y flwyddyn newydd ar yr ymrwymiad ariannol gan y Cyngor tuag at yr Uned newydd. Bydd hyn hefyd yn gyfle i asesu targedau arbedion i'r dyfodol ar gyfer yr Uned newydd.

5.0 **Llety Swyddfa**

5.1. Mae'r Bwrdd Prosiect wedi ystyried yr opsiynau ar gyfer lleoli'r Uned newydd gan gynnwys cysylltu gyda sefydliadau partner. Mae angen i'r Uned newydd fod mewn lleoliad canolog rhwng Llangefni a Chaernarfon gan wasanaethu'r ddwy Sir. Ceisir cael lleoli'r Uned yn ardal y Pontydd. Bydd angen cadw costau lletya mewn cof pan fyddir yn asesu'r cyfraniad a wneir gan y Cyngor. Bydd gweithio ar draws y ddau Gyngor a chynnal y rhwydweithiau cyfredol yn bwysig ac felly bydd angen elfen o rannu gorsafoedd gweithio.

| |
|---|
| |

| B – Ystyriaethau |
|---|
| |

| C – Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | Mae'n bwysig nodi y disgwylir arbedion yn sgil y cydweithio hwn. Gallai arbedion 10% ar staff gael eu gwrthbwyso gan gostau llety ychwanegol a gorbenion ychwanegol a chostau'r newidiadau. Rhaid medru cwrdd â hyn o'r cyllidebau presennol.<br><br>Mae'r cytundeb draft wedi cael ei ddiwygio er mwyn sicrhau bod y nail ochr a'r llall yn gwneud arbedion dros gyfnod y cytundeb. |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | Nid oes unrhyw gyfeiriad yn yr adroddiad at y ffaith na fydd rhai o staff cyfredol Ynys Môn efallai'n llwyddo i gael swyddi newydd ac y byddant o'r herwydd yn cael eu diswyddo gyda'r costau cysylltiedig os na fydd swyddi gweigion ar eu cyfer dan y trefniadau adleoli. |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | |

| C – Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| | | |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | |
| 12 | **Trosedd ac Anhrefn**<br>(gweler nodiadau - dogfen ar wahân) | |
| 13 | **Cytundebau Canlyniadau** | |

| CH – Crynodeb |
|---|
| |

| D –Argymhelliad |
|---|
| 1. Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn yr adroddiad hwn.<br>2. Cyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith yn y Flwyddyn Newydd ar y costau sy'n gysylltiedig â'r sefydliad newydd. |

**Huw Jones,**
**Pennaeth Gwasanaeth Polisi**
**2.11.12**

| Atodiadau: |
| --- |
| |

| Papurau Cefndirol: |
| --- |
| Adroddiad i'r Bwrdd Comisiynwyr 19.3.12 |

**Cyllidebau Partneriaethau 12/13**

| **Partneriaethau** | **Nifer y Swyddi** | **Ffynhonnell Gyllido** |
|---|---|---|
| Bwrdd Gwasanaeth Lleol | 1 | Grant |
| Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | 6 | Grant/Cyllideb Graidd |
| Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc | 10 | Grant/Cyllideb Graidd |
| Cyfanswm y cyflogau sy'n cael eu cyllido o'r gyllideb graidd £219k<br>Cyfanswm y cyflogau sy'n cael eu cyllido o grantiau £263k | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **26 TACHWEDD 2012** |
| **TEITL:** | **CYNLLUN INTEGREDIG SENGL** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETH - POLISI** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **ARWEINYDD Y CYNGOR** |

1.0 **Cefndir**

1.1 Fe gyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Tachwedd 2012 yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r gwaith o baratoi Cynllun Integredig Sengl. Bydd angen cyhoeddi'r Cynllun erbyn Ebrill 2013.

1.2 Bydd cyfnod ymgynghori yn dechrau o ddiwedd y mis hwn ar gynnwys y Cynllun ac mae'n bwysig bod Aelodau yn craffu'r Cynllun drafft. Awgrymir y dylid trefnu gweithdy ar gyfer Aelodau i'r diben hwn yn ystod y cyfnod ymgynghori sy'n gorffen ym mis Ionawr 2013.

2. **Argymhelliad**

2.1 Gofynni'r i Aelodau nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad cynnydd sydd ynghlwm a'r bwriad i drefnu gweithdy er mwyn craffu cynnwys y cynllun drafft.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaeth - Polisi**
**16.11.12**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad** | **19 TACHWEDD 2012** |
| **Pwnc** | **CYNLLUN INTEGREDIG SENGL** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **ARWEINYDD Y CYNGOR** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **PENNAETH GWASANAETH – POLISI** |
| **Swyddog Cyswllt** | **RHEOLWR POLISI A STRATEGAETH** |
| **Natur a rheswm dros adrodd**<br><br>**Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Gwaith am y cynnydd mewn perthynas â pharatoi'r Cynllun.** | |

**A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw**

**1.0 Cefndir**

1.1 Ar 5 Hydref 2010 adroddais i'r Pwyllgor Gwaith bod rhaid diweddaru'r Cynllun Cymunedol ar gyfer yr Ynys yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ar ddatblygu gweledigaeth tymor hir a chyfres o flaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella lles Cymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol yr ardal hyd at 2025.

1.2 Adroddais hefyd bod y gwaith hwn yn cael ei oruchwylio gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer Ynys Môn fel y bartneriaeth strategol allweddol sy'n gweithredu yn yr ardal, a hynny'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd adroddiadau pellach i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 23/03/11 a 27/07/11.

1.3 Yn wreiddiol roedd y BGLl wedi pennu amserlen i gynhyrchu'r Cynllun erbyn Mawrth 2012.

1.4 Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar siapio Cynllun 2012-25 rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2011.

**2. Gostwng y nifer o Gynlluniau a Chynllun Integredig yn 2012**

2.1 Yn gynharach yn y flwyddyn adolygwyd yr amserlen gan y BGLl yn wyneb canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar Gynlluniau a

Phartneriaethau Integredig a oedd yn gosod gofynion newydd ynghylch cyfyngu ar niferoedd y cynlluniau. Mae'r canllawiau yn dweud y dylai Cynllun Integredig Sengl a gomisiynir gan y BGLl fod wedi ei sefydlu erbyn Ebrill 2013 i ddisodli'r Cynlluniau Isod:

- Cynllun Cymunedol
- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Diogelwch Cymunedol

2.2 Mae'r Canllawiau yn dweud y dymunir gweld y broses yn arwain at integreiddio gwaith cynllunio gwasanaethau lleol, mireinio gwaith partneriaeth a chryfhau rôl strategol y BGLl.

**3. Gofynion y Cynllun Integredig Sengl**

3.1 Mae yna nifer o agweddau fel a ganlyn:

- Rhaid iddo fod yn seiliedig ar asesiad cynhwysfawr o anghenion
- Rhaid iddo fabwysiadu methodoleg sy'n seiliedig ar ganlyniadau
- Rhaid iddo ystyried anghenion y boblogaeth gyfan
- Rhaid iddo ganolbwyntio ar grwpiau penodol sydd dan anfantais

3.2 Rhaid i'r Cynllun hefyd gynnwys:

- Gweledigaeth tymor hir ar gyfer yr ardal
- Dadansoddiad o faterion ac anghenion allweddol
- Canlyniadau a flaenoriaethir a chynlluniau gweithredu cefnogol dros gyfnod o 3 blynedd
- Nifer fechan o feysydd blaenoriaeth i'r BGLl ganolbwyntio arnynt.

3.3 Mae'r ffocws Strategol yn y cynllun yn bwysig felly i yrru'r rhaglenni cyflawni yn eu blaenau ac ar gyfer gweithredu ar y cyd a dylanwadu ar gyfleon cyllido i'r dyfodol.

Mae cysylltiadau gyda chynlluniau eraill yn bwysig.

3.4 Gwnaed gwaith ar ddatblygu'r Cynllun Integredig yn y misoedd diwethaf trwy gyfres o weithdai gan y BGLl i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu ar y cyd. Mae'r rhain wedi eu grwpio dan dri maes blaenoriaeth - Pobl, Lle a Swyddi – gan adeiladu ar y themâu a flaenoriaethwyd ac yr ymgynghorwyd arnynt yn 2011 pan ddiweddarwyd y Cynllun Cymunedol bryd hynny.

**4.0 Ymgynghori**

4.1 Mae'n rhaid ymgynghori ar y Cynllun Integredig Sengl. Ymgynghorwyd flwyddyn yn ôl am gyfnod o dri mis ynghylch siapio'r Cynllun Cymunedol. Defnyddiwyd canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw fel sail ar gyfer gwaith ar y Cynllun Integredig Sengl. Oherwydd hynny, bwriedir yn awr y bydd y cyfnod ymgynghori hwn yn fyrrach, sef o ganol mis Tachwedd 2012 i ganol mis Ionawr 2013.

4.2 Mae gwaith yn parhau ar gwblhau dogfen ymgynghorol a ryddheir i gydranddeiliaid erbyn dim hwyrach na'r wythnos sy'n cychwyn 26 Tachwedd 2012.

4.3 Adroddir ar yr atborth o'r ymgynghoriad i'r BGLl ar ddiwedd Ionawr 2013 a chyflwynir Cynllun diwygiedig i'r Partneriaid i'w gymeradwyo. Ar ôl i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, bwriedir cyflwyno'r Cynllun i'r Cyngor ym Mawrth 2013 i'w fabwysiadu.

**5.0 Ar ôl Ebrill 2013**

5.1 Y Cynllun Integredig fydd sail rhaglen waith y Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y cyd i'r dyfodol, fel yr adroddwyd i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 19 Mawrth 2012. Yn ystod 2013/14 bwriedir cynhyrchu un Cynllun cynhwysfawr ar gyfer y ddwy Sir gan ddefnyddio'r Cynlluniau Integredig fel sail ar gyfer y gwaith hwnnw.

| **B – Ystyriaethau** |
|---|
| |

| **C - Goblygiadau ac Effeithiau** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar | |

| C - Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| | wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 12 | **Trosedd ac Anrhefn**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 13 | **Cytundeb Canlyniadau** | |

| CH – Crynodeb |
|---|
| |

**D – Argymhelliad**

1) Nodi'r cynnydd mewn perthynas â pharatoi'r Cynllun Integredig a'r bwriad i Aelodau sgriwtineiddio'r Cynllun drafft.
2) Cyflwyno'r Cynllun i'r Pwyllgor Gwaith i'w ystyried ym mis Chwefror 2013, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaeth - Polisi**
**1.11.12**

| Atodiadau: |
|---|
| |

| Papurau Cefndirol: |
|---|
| 1) Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith 05/10/10<br>2) Ein Hynys - Ein dyfodol - siapio'r Strategaeth Gymunedol ar gyfer Ynys Môn am y cyfnod 2012-2025<br>3) Adroddiad i'r Bwrdd Comisiynwyr 22/03/11.<br>4) Adroddiad i'r Bwrdd Comisiynwyr 30/07/11.<br>5) Canllawiau Llywodraeth Cymru – Integreiddio Cynlluniau Partneriaeth (canllawiau draft Ionawr 2012 – canllawiau terfynol Mehefin 2012). |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **26 TACHWEDD 2012** |
| **TEITL:** | **STRATEGAETH GYFATHREBU GORFFORAETHOL 2012-15** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETH - POLISI** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **Cyng J. Chorlton** |

**1. Cefndir**

1.1 Mae gan y Strategaeth Gyfathrebu Corfforaethol drafft ar gyfer 2012-15 gyfraniad pwysig er mwyn amlinellu sut mae'r Cyngor yn bwriadu rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd, staff, rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid eraill am ganlyniadau allweddol mae'r Cyngor yn ceisio ei wireddu yn Ynys Môn. Mae gan y Strategaeth hefyd rôl bwysig er mwyn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am wasanaethau a hefyd hyrwyddo enw da'r Awdurdod.

1.2 Mae copi o'r Strategaeth ddrafft ynghlwm sy'n amlinellu pwrpas y Strategaeth a hefyd rôl Aelodau a Swyddogion. Yn ogystal, ceir protocol er mwyn delio gyda'r wasg a'r cyfryngau sy'n darparu canllawiau i Aelodau a Staff wrth ddelio gyda'r cyfryngau.

1.3 Mae'r Uwch Dim Arweinyddiaeth eisoes wedi cymeradwyo'r Strategaeth ddrafft.

2.0 **Argymhelliad**

2.1 Gofynnir i Aelodau'r graffu'r Strategaeth ddrafft a chyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaeth - Polisi**
**16.11.12**

TO BE BRANDED IN CORPORATE STYLE FOLLOWING FINAL APPROVAL

# Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol 2012-15

Front page to include keywords from Residents' Survey conclusions here:

GWRANDO AR DDINASYDDION

CADW EIN HADDEWIDION

GWELLA

HYSBYSU

DRAFFT

# CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| Cyd-destun | 3 |
| Rhagarweiniad | 4 |
| Nod ac amcanion y Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol | 7 |
| Negeseuon allweddol | 8 |
| Cynulleidfaoedd Targed | 9 |
| Dulliau Cyfathrebu | 10 |
| Rheoli Enw Da | 12 |
| Strategaeth | 13 |
| Adnoddau | 13 |
| Gwerthuso | 18 |

**Atodiadau:**

| | |
|---|---|
| Protocol ar gyfer y Cyfryngau | 19 |


DRAFFT

# CYD-DESTUN

## Lle ydym ni?



***gan Richard Parry Jones, Prif Weithredwr***

DRAFT

Croeso i Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn lle rydym yn hoelio ein sylw'n gadarn ar y dyfodol.

Drwy ein dulliau cyfathrebu corfforaethol, rydym yn gobeithio dangos i chi sut yr ydym yn gweithio tuag at gyflawni pump o amcanion allweddol ar gyfer Ynys Môn.

Rydym yn dymuno gweld Ynys Môn...

- Sydd ag economi wledig lewyrchus a ffyniannus
- Lle mae pobl yn cyrraedd eu llawn botensial
- Lle mae pobl yn ddiogel ac yn iach
- Lle mae pobl yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Lle mae pobl yn falch o'u Cyngor

Yn dilyn cyfnod cythryblus, mae angen i Ynys Môn ganolbwyntio ei holl hymdrechion ar sicrhau **newid cynaliadwy a radical mewn meysydd gwasanaeth allweddol** fel addysg a gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn bodloni'r rheoleiddwyr ac i gynnig y gwerth gorau am arian i ddinasyddion.

Mae'n hanfodol ein bod yn rhoi sylw i faterion pwysig fel **ail-ddylunio a gwella gwasanaethau yn sylweddol, gyrru datblygiad economaidd a chynyddu ymgysylltiad cymunedol** os ydym am garlamu ymlaen a chreu Cyngor y gallwn oll fod yn falch ohono.

Rhaid i ni fwrw ymlaen gyda'r rhaglen drawsnewid a chreu gwasanaethau sy'n addas ar gyfer bywyd yn yr unfed ganrif ar hugain.

Rhaid i'r gwaith hwn gael ei yrru gan feddwl yn arloesol ar bob lefel, p'un a yw hynny yn y maes addysg, gofal cymdeithasol neu unrhyw un o'r llu o wasanaethau eraill a ddarperir gan y Cyngor.

Er bod ein prif gyfrifoldeb yn parhau i fod yn un o gefnogi'r bobl sydd fwyaf bregus yn ein cymdeithas, rydym yn credu'n gryf bod twf economaidd a lles cymdeithasol yn bell o fod yn annibynnol ar ei gilydd. Mewn gwirionedd, bydd cynnydd mewn gweithgaredd economaidd, bod yn arloesol a datblygu diwylliant mentrus ar yr Ynys yn hwb i greu swyddi newydd, cadw talent ar yr Ynys a chynorthwyo i wella ansawdd bywyd yma yn Ynys Môn.

Rhaid i ni sicrhau mai ein trigolion fydd yn cael y cynnig cyntaf ar y cyfleon hyn ac mae cyfathrebu'n effeithiol yn fewnol ac yn allanol yn rhan o'r broses o wneud hynny'n bosibl.



# RHAGARWEINIAD

## Pam mae angen Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol?

- Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ddyletswydd i brofi i'w drigolion a'i bartneriaid sut y mae'n darparu gwasanaethau a gwerth da am arian.
- Mae'r Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol yn chwarae rôl bwysig o ran dangos sut y bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r cyhoedd, staff a chydranddeiliaid allweddol eraill a phartneriaid cymunedol am y canlyniadau allweddol y mae'r Cyngor yn ceisio eu sicrhau ar gyfer Ynys Môn, sut mae'n gweithio i'w cyflawni a sut y gallant gymryd rhan.
- Mae gan y Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol hefyd rôl bwysig o ran dangos sut y byddwn yn cyfeirio'r cyhoedd at wybodaeth bwysig ac/neu ddefnyddiol am wasanaethau.
- Mae gwaith ymchwil llywodraeth leol a wnaed ledled y Deyrnas Gyfunol wedi dangos mai po fwyaf o wybodaeth sydd gan drigolion a pho fwyaf yr ymgysylltir â nhw, bodlonaf yn y byd ydynt a mwyaf tebygol o gredu bod y Cyngor yn cynnig gwerth am arian.[1]
- Gall cyfathrebu da felly sicrhau bod gan y Cyngor enw gwell ymysg trigolion ac adeiladu perthynas gref gyda phartneriaid lleol.
- Mae'r Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol hon yn dangos sut y bydd y Cyngor yn defnyddio cyfathrebu fel arf strategol i sicrhau mwy o ymddiriedaeth, hyder ac ymgysylltiad ymysg y cyhoedd, staff y Cyngor a phartneriaid allweddol.

*Y ffynonellau y mae pobl yn troi atynt fwyaf i gael wybodaeth am y Cyngor yw llythyrau newyddion, cylchgronau, taflenni gan wasanaethau'r Cyngor, y wefan, papurau newydd lleol Cymreig a gwybodaeth lafar*

*Arolwg Trigolion Môn 2012*


*Dywedodd ychydig dros bedwar o bob pump a ymatebodd fod gwrando ar ddinasyddion a chadw ein haddewidion yn flaenoriaeth bwysig i Ynys Môn.*

*Arolwg Trigolion Môn 2012*

1 Arolwg Barn Lginsight, Mehefin 2011

DRAFT

## Ym mhle mae'r Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol yn eistedd?




DRAFT

**FFIG 1. Lle mae'r Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol yn ffitio i mewn gyda chynlluniau strategol eraill CSYM**

Mae **Cynllun Integredig Sengl 2013-25** wrth wraidd meddwl strategol y Cyngor, oherwydd ei fod yn gosod gweledigaeth tymor hir ar gyfer gwella lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Ynys Môn. Mae'r **Cynllun Busnes Corfforaethol** tair blynedd, a ddiweddarir bob blwyddyn, yn llywio'r penderfyniadau a wneir yn y tymor canol ar bob lefel tra bod **Cynlluniau Darparu Gwasanaeth** yn gosod rhaglenni gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r **Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol** yn ymgorffori'r tair lefel o feddwl strategol ac yn nodi sut y byddwn yn rhoi gwybod am y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Cyngor ar bob un o'r tair lefel.

## Beth ydych chi'n ei ddweud wrthym?

Roedd Arolwg Trigolion Ynys Môn 2012 yn ffordd wych i ni ddarganfod beth oedd trigolion yn ei feddwl am y Cyngor.

*Roedd dros dri chwarter o'r ymatebwyr yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda mynediad i wasanaethau, a dim ond un ym mhob 12 oedd yn anfodlon.*

*Roedd pedwar o bob pump o ymatebwyr yn fodlon gyda'r gwasanaeth ailgylchu, dwy ran o dair yn fodlon gyda'r gwaith i gadw tiroedd yn glir o sbwriel a gwastraff, bron i ddwy ran o dair yn fodlon gyda'r parciau a'r llecynnau agored gan gynnwys Parciau Gwledig a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.*

*Mae tri o bob pump yn fodlon gyda gwasanaethau diwylliannol fel Oriel Ynys Môn ac amgueddfeydd eraill ac mae 58% yn fodlon gyda gwybodaeth a gwasanaethau trafnidiaeth leol.*

*Roedd hanner y rheini a ymatebodd yn fodlon gyda'r cyfleusterau chwaraeon a hamdden gyda chwarter yn anfodlon. Roedd 48% yn fodlon gyda'r gwaith cynnal ar ffyrdd, gyda thri ym mhob deg yn anfodlon.*

*Roedd tri allan o bob pump o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor, tra bod ychydig o dan chwarter yn teimlo fel arall. Roedd ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn cael gwybod am y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.*

*Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn ystyried y bu'n hawdd cysylltu â rhywun yn y Cyngor y tro diwethaf y gwnaethont hynny, tra bod un o bob chwech yn ystyried ei fod yn anodd (16%).*

*'Roedd bron i dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn fodlon gyda darpariaeth y Cyngor ar gyfer yr iaith Gymraeg wyneb-yn wyneb, dros y ffôn ac yn ysgrifenedig.*





# NOD

## Beth mae'r strategaeth hon yn ceisio ei wneud?

Nod yr holl weithgareddau cyfathrebu corfforaethol yw sicrhau bod gan staff, cydranddeiliaid, partneriaid, trigolion a phawb arall sy'n delio gyda'r Cyngor **ddealltwriaeth glir a chadarnhaol** o:

- **Beth mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ceisio ei wneud ar gyfer pobl Ynys Môn**
- **Beth yw ein gwerthoedd**
- **Sut ydym ni'n gwneud cynnydd ac yn darparu gwerth am arian**
- **Sut gall unigolion gael at wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor**
- **Sut ydym yn gwrando a sut gallant ymwneud mwy gyda'r Cyngor**

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ein hymagwedd at gyfathrebu corfforaethol a'r cyfryngau byddwn yn eu defnyddio i gyfathrebu gyda staff, dinasyddion, partneriaid a chymunedau.

## Sut ydym am gyflawni ein nod?

Trwy:

- Ymgysylltu mwy gyda dinasyddion a chymunedau a gwella mynediad i wasanaethau
- Bod yn rhagweithiol yn ein perthynas gyda'r cyfryngau
- Cryfhau'r defnydd o frand y Cyngor i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau
- Gwella cyfathrebu mewnol

DRAFT

# NEGESEUON ALLWEDDOL

## Beth ydym  yn ceisio ei ddweud?

Mae ein negeseuon allweddol yn adlewyrchu'r canlyniadau strategol sydd newydd gael eu mabwysiadu gan y Cyngor.  Dylai'r rhain fod wedi eu hadlewyrchu yn y cyfathrebiadau corfforaethol:

- Rydym yn dymuno i Ynys Môn gael economi wledig ffyniannus a llewyrchus.
- Rydym yn dymuno i bobl Ynys Môn gyrraedd eu llawn botensial
- Rydym yn dymuno i bobl Ynys Môn fod yn iach ac yn ddiogel
- Rydym yn dymuno i bobl Ynys Môn fwynhau, gwarchod a gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Rydym yn dymuno i bobl Ynys Môn fod yn falch o'u Cyngor

*Y camau pwysicaf o ran sicrhau bod pobl Ynys Môn yn falch o'u Cyngor*

*"Mwy o ddemocratiaeth, gonestrwydd, atebolrwydd a thryloywder yn y Cyngor"*

*"Mwy o ymgysylltu gyda thrigolion a gwrando ar drigolion"*

*Arolwg Trigolion Ynys Môn  2012*




DRAFFT

# CYNULLEIDFAOEDD TARGED

## Beth ydym yn ceisio ei wneud?

Mae'r Cyngor yn cyfathrebu gydag ystod eang o bobl, o staff i aelodau etholedig, o bartneriaid lleol i drigolion.  Bydd gan bob un o'r partneriaid hyn wahanol lefelau o ymwybyddiaeth o waith y Cyngor, a bydd angen teilwrio negeseuon allweddol yn seiliedig ar hynny.  Yn yr un modd, wrth gynllunio ymgyrchoedd unigol rhaid rhoi sylw i broffil y gynulleidfa darged.  Er enghraifft, y ffordd fwyaf effeithiol o gyrraedd grwpiau pobl hŷn efallai yw trwy gyfryngau traddodiadol, ond mae cyfryngau cymdeithasol yn hollbwysig ar gyfer cyrraedd pobl iau.





**FFIG 2. Cynulleidfaoedd Targed**

# DULLIAU CYFATHREBU

## Sut rydym ni yn cyfathrebu?

- Facebook
- LinkedIn
- Blogio
- Twitter




- Newyddion Môn News
- Posteri/taflenni gan adrannau(electroneg a phrint)
- Cyhoeddiadau canolog

- Digwyddiadau ymgynghori
- Digwyddiadau cymunedol
- Sioe Môn
- Llythyru/Wyneb yn wyneb/ sgyrsiau rhwng adrannau a chynghorwyr

- Newyddion
- Gwybodaeth




- Briffio
- Ar lafar
- Digwyddiadau/cynadleddau

- Wyneb yn wyneb (briffio cyfarfodydd, sgyrsio)
- Ffôn
- Ebost(personol a'r Ddolen/The Link)
- Medra Môn newyddlen staff
- Mewnrwyd staff MonITor

**FFIG 3. Dulliau Cyfathrebu**

# DELWEDD GORFFORAETHOL




Mae'r ddelwedd gorfforaethol yn dweud llawer am y sefydliad a'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau. Gall delwedd gorfforaethol gref wneud argraff dda ar y cyhoedd a'n partneriaid.

Mae'n bwysig felly bod y Cyngor yn cynnal delwedd gorfforaethol gref arunrhyw ddogfennau a deunyddiau a ddefnyddir yn fewnol ac yn allanol. Maehyn yn ei gwneud hi'n haws i gwsmeriaid adnabod y sefydliad pan maent yn derbyn gwybodaeth gennym, ymweld â'n hadeiladau neu'n gweldstaff a cherbydau'r Cyngor wrth eu gwaith.

Cafodd y llawlyfr delwedd gorfforaethol ei ddylunio i helpu staff, aelodau a chontractwyr i ddefnyddio'r ddelwedd gorfforaethol yn gywir o ddewis y ffont cywir ar gyfrifiaduron unigol, cynhyrchu cyhoeddiadau a defnydd o'r logo.

Mae'n bwysig fod pawb yn y sefydliad yn gyfarwydd gyda delwedd gorfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn ac yn gwybod sut i'w defnyddio fel bod ein delwedd brand yn gyson. Bydd hyn yn cryfhau sefyllfa'r Cyngor fel sefydliad proffesiynol ac effeithiol.

DRAFT

# GWEITHIO GYDA PARTNERIAID

Mae'r Cyngor yn cefnogi nifer o bartneriaethau mewn iechyd a gofal cymdeithasol, addysg/plant a phobl ifanc, datblygu economaidd a thwristiaeth.  Wrth i bartneriaethau ddod yn fwy fwy arferol, mae angen i gynrychiolwyr y Cyngor fod yn glir pa bartner sy'n arwain ar gyfathrebu a pha brotocol sydd mewn lle o ran cyfathrebu gyda'r wasg.

# RHEOLI ENW DA

Gall nifer o bethau effeithio ar hyder y cyhoedd yn y Cyngor.

Mae dwy sefyllfa ble mae ymateb y Cyngor, gan gynnwys y ffordd rydym yn cyfathrebu, droi'n allweddol:


- Mewn sefyllfa o argyfwng e.e. argyfwng megis llifogydd neu eira, damwain yn ymwneud ag aelod o staff neu eiddo'r Cyngor

- Yn achos digwyddiad gyda'r potensial i wneud niwed i enw da'r Cyngor e.e. digwyddiad yn ymwneud â aelod o staff/cynghorydd sir, triniaeth annigonol o gwyn gan aelod o'r cyhoedd

Mae pedair agwedd i reoli sefyllfa argyfyngus neu /ac o reoli enw da:

- Creu tîm rheoli sefyllfa argyfyngus/enw da
- Darogan materion sensitif a sut i osgoi problemau/sylw negyddol
- Negeseuon arbennig i brif rhanddeiliaid
- Strategaeth ar gyfer y cyfryngau

Mae'r rhain yn cyfateb i gylch sefyllfa argyfyngus/reoli enw da:




DRAFT

Mae angen agwedd rhagweithiol at gyfathrebu er mwyn sicrhau fod sefyllfaoedd sydd â photensial uchel i ddwysáu yn cael eu hadnabod yn fuan. Mae darogan ac atal yn allweddol ac mae Blaen Raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cynnig cyfle pwysig i adnabod materion all effeithio enw da'r Cyngor.

Pan y mae sefyllfa argyfyngus yn codi, mae'n rhaid iddo cael ei ystyried yn brydlon ac yn effeithlon. Dylai tawelu meddwl, ailadeiladu a chynnal hyder y cyhoedd fod yn rhan allweddol o reoli sefyllfa argyfyngus/rheoli enw da.

Unwaith y mae sefyllfa wedi dod i ben, mae'r cyfle i adfer hyder y cyhoedd yn prinhaufelly mae'n bwysig fod cynllun rheoli, gan gynnwys strategaeth i ddelio gyda'r cyfryngau, mewn lle er mwyn adennill hyder/tawelu meddwl yn ystod digwyddiad wrth iddo fynd rhagddo.

# EIN STRATEGAETH

## Beth ydym ni am ei wneud?

**Blaenoriaeth Datblygu 1: Ymgysylltu mwy gyda dinasyddion a chymunedau**

Camau Allweddol

- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o weledigaeth a chanlyniadau allweddol y Cyngor
- Cynnal digwyddiadau ymgysylltu cymunedol mewn amryfal leoliadau ar hyd a lled yr ynys
- Trefnu presenoldeb y Cyngor yn Sioe Môn
- Darparu cymorth cyfathrebu wedi'i deilwrio ar gyfer prosiectau arbennig (e.e. Cynllun Rheoli Cyrchfan, Rhaglen Ynys Ynni)
- Hyrwyddo ymgysylltiad democrataidd yn y cyfnod hyd at etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai 2013
- Cynhyrchu papur newydd cymunedol 'Newyddion Môn' sy'n canolbwyntio ar straeon sy'n gysylltiedig â chanlyniadau
- Cynorthwyo tîm y we i ddatblygu'r wefan gorfforaethol
- Datblygu presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol Facebook a Trydar
- Cynhyrchu llyfryn blynyddol ar y dreth gyngor

**Blaenoriaeth Datblygu 2: Bod yn rhagweithiol yn ein perthynas gyda'r cyfryngau er mwyn gwella enw da'r Cyngor**

- Adolygu'r Strategaeth Gyfathrebu
- Cynhyrchu datganiadau i'r wasg a ffotograffau yn rheolaidd
- Cynnal sesiynau briffio gyda'r cyfryngau ynghylch cerrig milltir allweddol i'r Cyngor/yr ynys
- Cynnal sesiynau briffio/cyfweliadau un-i-un gydag uwch reolwyr/yr Arweinydd/y Cadeirydd
- Datblygu perthynas gyda chylchgronau sy'n ymwneud â llywodraeth leol
- Adolygu'r protocol cyfryngau
- Trefnu hyfforddiant cyfryngau ar gyfer y Tîm Uwch Arweinyddiaeth newydd a'r Pwyllgor Gwaith

**Blaenoriaeth Datblygu 3: Cryfhau'r defnydd o frand y Cyngor i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â gwasanaethau**

- Gweithio gyda'r tîm dylunio graffig i gynorthwyo'r holl adrannau i gynhyrchu deunydd sy'n cydymffurfio gyda'r brand
- Darparu ffotograffau priodol ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cyngor/ar gyfer ein cronfa o luniau

**Blaenoriaeth Datblygu 4: Gwella Cyfathrebu Mewnol**

- Cynhyrchu cynllun gweithredu cyfathrebu mewnol
- Cynhyrchu llythyr newyddion i staff bob mis
- Hyrwyddo'r system e-bost 'Y Ddolen/The Link' fel y prif ddull o gysylltu gyda'r holl staff
- Hyrwyddo'r fewnrwyd i staff, sef MonITor
- Cyhoeddi calendr ymgynghori mewnol
- Sefydlu gweithgor rheoli digwyddiadau tyngedfennol/enw da er mwyn gwella gweithdrefnau ar gyfer nodi a delio gyda digwyddiadau tyngedfennol a materion sy'n ymwneud â rheoli enw da

DRAFT

# ADNODDAU

## Pwy sy'n gwneud be'?

Er mwyn bod yn Gyngor sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n eangfrydig, rhaid i bob aelod o staff a phob aelod etholedig chwarae eu rhan i wella cyfathrebu. Mae'r cyfrifoldeb am weithredu'r strategaeth hon felly yn rhywbeth i'r Cyngor cyfan a'r holl weithwyr.



### Aelodau Etholedig

- Arweinydd y Cyngor sy'n gyfrifol am y portffolio cyfathrebu
- Dylai'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r strategaeth a sicrhau y gweithredir ar yr egwyddorion
- Dylai Aelodau Etholedig gymryd perchenogaeth o'r strategaeth a chymryd cyfrifoldeb uniongyrchol am hyrwyddo delwedd gadarnhaol o'r Cyngor. Rhaid i'r Aelodau gofio bod unrhyw ymddygiad yn gyfathrebu ac y dylent weithredu fel 'llysgenhadon' a chanolbwyntio ar arweinyddiaeth gymunedol.
- Dylai'r Aelodau Etholedig gyfeirio at y Protocol Cyfryngau a amlinellir yr Atodiad (tud 19) ynghyd â phrotocol yr aelodau ar gyfer hunanreoleiddio er mwyn cryfhau enw da'r Cyngor.
- Dylid rhoi gwybod i'r Prif Weithredwr ar unwaith am unrhyw fater a all ddatblygu i fod yn ddigwyddiad tyngedfennol neu'n fater a all niweidio enw da'r Cyngor fel y gellir cymryd camau priodol.



## Staff

- Fod yn ymwybodol o'r Strategaeth Cyfathrebu a negeseuon allweddol y Cyngor
- Sicrhau bod gwybodaeth ynghylch prosiectau, digwyddiadau neu ymgynghoriadau sy'n haeddu sylw yn y wasg, yn cyrraedd yr Uned Gyfathrebu
- Rhoi gwybod i'r Uned Gyfathrebu am lwyddiant personol unigolion fel y gellir cynnwys hyn yn y cylchlythyr staff
- Sicrhau bod unrhyw ddeunydd sy'n cael ei argraffu neu'n sy'n ymddangos ar-lein, ynghyd ag arwyddion a dillad corfforaethol, yn dilyn y steil corfforaethol a chydymffurfio gyda'r Polisi Iaith Gymraeg drwy gyfeirio at y Llawlyfr Hunaniaeth Gorfforaethol a thrwy ymgynghori gyda'r Uned Gyfathrebu/Tîm Dylunio Graffig mewn perthynas ag unrhyw gyhoeddiadau.
- Darllen a glynu wrth Brotocol Cyfryngau'r Cyngor (gweler yr Atodiad)
- Sylweddoli bod unrhyw gyswllt gyda chwsmeriaid a phartneriaid yn rhan o'r broses o reoli enw da a bod pob aelod o staff yn gweithredu fel 'llysgennad' i CSYM.
- Rhoi gwybod i'r Pennaeth Gwasanaeth/rheolydd llinell ar unwaith am unrhyw fater a all ddatblygu i fod yn ddigwyddiad tyngedfennol neu'n fater a all niweidio enw da'r Cyngor fel y gellir cymryd camau priodol.




## Tîm Uwch Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth

Dylai'r TUA gyfathrebu'r neges fod pawb ar draws y Cyngor i gyd ar bob lefel yn berchen ar y Strategaeth Gyfathrebu

- Dylai'r TUA sicrhau fod systemau cadarn yn eu lle i rannu negeseuon sylfaenol i staff o gyfarfodydd y TUA
- Dylai'r TUA gynnal sesiynau briffio wyneb yn wyneb, rhyngweithiol rheolaidd gyda staff
- Dylai Penaethiaid Gwasanaeth ddiffinio a blaenoriaethu anghenion cyfathrebu pob gwasanaeth, gan gynnwys cyfathrebu fel eitem ar raglenni cyfarfodydd allweddol
- Dylai'r TUA/PG sicrhau fod y goblygiadau o ran cyfathrebu yn cael eu hystyried yn ystod pob cam o'r broses gwneud penderfyniadau
- Dylai'r TUA/PG nodi unrhyw faterion, adroddiadau a chyhoeddiadau a all fod yn sensitif a rhoi gwybod I'r Uned Gyfathrebu cyn eu rhyddhau i'r cyhoedd drwy raglenni, cyfarfodydd neu'r wasg/cyfryngau cymdeithasol yn unol â'r rhestr wirio ar gyfer yr adroddiad
- Dylai PG fod yn rhagweithiol o ran darparu gwybodaeth I'r Uned Gyfathrebu mewn perthynas â straeon cadarnhaol, llwyddiannau, digwyddiadau cyhoeddus/ymgynghoriadau.
- Dylai PG ddarparu gwybodaeth gyfredol ynghylch gwaith y gwasanaeth ar gyfer gwefan y Cyngor, MonITor, y wefan dwristiaeth a safleoedd cysylltiedig eraill a hynny mewn cydweithrediad gyda Rheolydd y We a Gwybodaeth
- Mae'r TUA/PG yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff yn deall eu rôl o ran rhoi gwybod am faterion o bwys/materion sy'n ymwneud ag enw da'r Cyngor ac annog diwylliant lle mae staff yn teimlo'n hyderus i drafod unrhyw faterion fel bod modd nodi'n fuan a rheoli'n effeithiol unrhyw faterion sy'n debygol o ddwysáu.







## Uned Cyfathrebu Corfforaethol

- Yn gyfrifol am arolygu'r Strategaeth Gyfathrebu a sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu
- Dylai'r Uned fod yn rhagweithiol o ran darparu cefnogaeth a chyngor cysylltiadau cyhoeddus i swyddogion ac aelodau etholedig.
- Yn gyfrifol am godi proffil cyfathrebu gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol, Penaethiaid Gwasanaeth a'r holl staff (lle y bo'n briodol)
- Dylai barhau i ddatblygu cyfathrebu mewnol.
- Yn gyfrifol am reoli'r berthynas gorfforaethol gyda'r cyfryngau
- Dylai adolygu'r Strategaeth Gyfathrebu a'r Cynllun Gweithredu yn rheolaidd.
- Yn gyfrifol am fonitro cynnydd yn erbyn targedau ac adrodd yn ôl i'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol.
- Dylai ddarparu gwybodaeth i staff newydd ar faterion cyfathrebu fel rhan o'r broses gynefino
- Yn gyfrifol am gynhyrchu papur newydd cymunedol Newyddion Môn a llythyr newyddion staff Medra Môn
- Dylai'r Uned barhau i ddarparu arbenigedd cyfathrebu wrth i'r wefan esblygu
- Dylai sicrhau perchnogaeth gorfforaethol o dudalen hafan y wefan
- Dylai barhau i ddatblygu llwyfannau cyfrwng cymdeithasol
- Dylai fod â throsolwg o'r cyhoeddiadau a gynhyrchir gan wasanaethau er mwyn sicrhau negeseuon cyson a brand.
- Dylai fod â rôl allweddol o ran datblygu strategaeth gyfryngau i ddelio â digwyddiadau tyngedfennol neu faterion rheoli enw da.

# Gwerthuso

## Sut rydym ni'n gwneud?

Mae gwerthuso'n chwarae rhan bwysig o ran sicrhau fod y strategaeth gyfathrebu yn effeithiol.

Byddwn yn monitro cynnydd trwy:

- Adolygu'r cynllun gweithredu yn rheolaidd (bob chwarter)
- Adolygu'r strategaeth bob 12 mis
- Cynnwys cwestiynau priodol yn yr Arolwg Trigolion (blynyddol)
- Gwerthuso'r sylw geir yn y cyfryngau (yn barhaus, yn ffurfiol bob chwe mis)

Mae'r Strategaeth Gyfathrebu a chynllun gweithredu blynyddol yr Uned Gyfathrebu yn ddogfennau byw a byddant yn cael eu diwygio fel sy'n briodol er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol bob amser ac yn gyfredol.

DRAFFT

**Cysylltu gyda'r Uned Cyfathrebu Corfforaethol**

Gethin Jones gethin.jones@ynysmon.gov.uk neu 01248 752 130

Gwen Siôn gwen.sion@ynysmon.gov.uk neu 01248 752 128

Pegi Allsop – Rheolwraig y We a Gwybodaeth

Stephen Edwards – Uwch Ddylunydd Graffeg

Steven Jones – Dylunydd Graffeg

# Protocol y Cyfryngau

# I staff a Chynghorwyr Sir

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL



www.ynysmon.gov.uk www.anglesey.gov.uk

DRAFT

Cefndir

Mae cyswllt uniongyrchol rhwng y Cyngor a thrigolion Ynys Môn yn cynyddu trwy ddefnyddio dulliau fel ymgynghori, y we a rhwydweithio cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r cyfryngau'n parhau i chwarae rhan bwysig o ran llunio barn y bobl am y Cyngor.

Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud y mwyaf o'r cyfleon a gynigir gan y cyfryngau ac yn gweithio gyda hwy i hyrwyddo storïau cadarnhaol ac er mwyn gallu ymateb mor effeithiol ac mor agored ag sy'n bosibl i ymholiadau er mwyn cynnig darlun cytbwys a gwybodus o faterion sy'n ymwneud â'r Cyngor.

Nod y protocol hwn yw cynnig cyfarwyddyd ynghylch sut y dylai swyddogion ac aelodau ddelio â'r cyfryngau.

Mae cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol yn cael ei arwain gan y Côd Ymarfer a Argymhellir a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Hydref 2001 fel rhan o'i bwerau dan Adran 4 (1) Deddf Llywodraeth Leol 1986. Lluniwyd y Côd i ymdopi gyda'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn cynnwys dyletswyddau awdurdodau lleol i ymgynghori, rhoi cyhoeddusrwydd, cynllunio cymunedol ac wrth iddynt ymarfer eu pwerau statudol newydd i wneud unrhyw beth fydd yn hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol, neu amgylcheddol eu hardal.

## 1. Yr Uned Gyfathrebu

- Yr Uned Gyfathrebu fydd prif bwynt cyswllt y Cyngor ar gyfer unrhyw faterion fydd yn ymwneud â'r wasg a'r cyfryngau.
- Bydd o leiaf un aelod o staff ar gael i ddelio gydag ymholiadau am newyddion bob amser yn ystod yr wythnos weithio arferol.
- Mae'r Uned Gyfathrebu'n cofnodi pob ymholiad a hefyd ymateb y Cyngor.
- Mae'n cadw detholiad o gyhoeddiadau lleol yn y Gymraeg a'r Saesneg yn cynnwys y Western Mail a'r Daily Post am oddeutu dri mis, a bydd yn derbyn bwletinau monitro'r cyfryngau yn ddyddiol.

## 2. Ymholiadau gan y Cyfryngau

- Mae'n bosibl y bydd newyddiadurwyr yn dod at weithwyr y Cyngor yn uniongyrchol. Dylid cyfeirio'r newyddiadurwr at yr Uned Gyfathrebu, oherwydd y gall yr ymholiad fod yn un cynhennus, yn un gwleidyddol neu'n un a fydd yn cyffwrdd â nifer o wasanaethau gwahanol ac yn un a fydd, yn amlach na pheidio, yn un ag amser cau tynn. Efallai y bydd hefyd yn cynnig cyfle i hyrwyddo prosiect arbennig ac yn rhoi i ni atborth pwysig ar y mathau o ymholiadau sy'n cael eu derbyn a bydd hynny yn ei dro yn bwydo gwybodaeth i'r strategaeth gyfathrebu tymor hir.
- Bydd swyddogion cyfathrebu yn cysylltu â swyddogion perthnasol am wybodaeth er mwyn ffurfio ymateb, ac yn clirio'r ymateb hwnnw gyda'r prif swyddog priodol.
- Bydd materion yn ymwneud ag unrhyw newyddion mawr yn cael eu dwyn i sylw'r prif swyddog perthnasol a rhaid i'r swyddog hwnnw ac , os yn briodol, y deilydd portffolio perthnasol, glirio'r ymateb.

- Mewn achos lle bydd y cyfryngau'n gofyn am sylwadau gwleidyddol, bydd hyn yn cael ei gyfeirio at yr Arweinydd, yr aelod perthnasol neu'r grwp gwleidyddol a fydd yn dweud wrth yr Uned Gyfathrebu am eu hymateb fel bod swyddogion yn ymwybodol o'r materion.
- Rhaid cyfeirio i'r Uned Gyfathrebu unrhyw geisiadau i ffilmio, cymryd ffotograffau neu recordio yn unrhyw eiddo neu ar unrhyw dir y mae'r Cyngor yn berchen arnynt fel y gellir siecio'r asesiadau risg a'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus perthnasol.

**3. Datganiadau i'r Wasg**

- Mae datganiadau i'r wasg yn un o'r ffyrdd gorau o sianelu newyddion cadarnhaol neu wybodaeth am y Cyngor.
- Dim ond yr Uned Gyfathrebu fydd yn rhyddhau unrhyw ddatganiad a wneir gan y Cyngor i'r cyfryngau er mwyn sicrhau bod y datganiadau'n dilyn y patrwm a'r gweithdrefnau corfforaethol ac er mwyn sicrhau y gellir cadw cofnod canolog ac y gellir gwerthuso'r sylw a roddwyd.
- Rhaid i staff ac aelodau fod yn rhagweithiol o ran dod â storïau 'newyddion da' i sylw'r Uned Gyfathrebu mewn da bryd - yn ddelfrydol, o leiaf bythefnos cyn bod angen eu cyhoeddi.
- Pan yn cyflwyno storïau, dylid hefyd roi cymaint ag sy'n bosibl o wybodaeth gefndirol - pwy, beth, pam, lle a phryd.
- Yn gyffredinol, fe ddylai pob datganiad i'r wasg gynnwys dyfyniad gan y Deilydd Portffolio perthnasol. Pan mae stori o ddiddordeb penodol i ward arbennig, bydd aelodau unigol yn cael eu dyfynnu yn y datganiadau. Dylid gwahodd aelodau lleol hefyd i gael tynnu eu lluniau yn eu wardiau. Bydd yr Uned Gyfathrebu yn clirio'r dyfyniadau gyda'r personau a enwir cyn eu defnyddio.
- Ni fydd unrhyw weithwyr nac aelodau o'r cyhoedd yn cael eu dyfynnu heb gael eu caniatâd ymlaen llaw.
- Efallai y bydd y gwasanaethau'n gweithio gydag asiantaethau Cysylltiadau Cyhoeddus allanol i hyrwyddo eu gwaith. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid cysylltu â'r Uned Gyfathrebu er mwyn rhoi ffurf derfynol ar unrhyw gyfraniad y bydd y Cyngor yn ei wneud i'r datganiad.
- Bydd datganiadau i'r wasg yn cael eu dosbarthu i'r holl Gynghorwyr trwy e-bost (neu gopi caled os bydd angen).
- Bydd yr holl ddatganiadau i'r cyfryngau'n cael eu postio ar wefan gorfforaethol y Cyngor.
- Ni ellir rhoi unrhyw sicrwydd y bydd y datganiadau i'r wasg yn cael eu defnyddio gan unrhyw gyhoeddiad.

DRAFT

**4. Datganiadau gan y Cyngor**

Dim ond yr **Uned Gyfathrebu** sy'n gallu rhyddhau datganiadau gan y Cyngor mewn ymateb i gais arbennig am sylwadau. Bydd unrhyw ddatganiadau'n cael eu clirio gyda'r swyddog / deilydd portffolio perthnasol cyn eu rhyddhau.

- Ni fydd y Cyngor fel arfer yn gwneud sylwadau ynghylch honiadau am staff unigol. Mewn pob amgylchiad arall **ni fydd** 'dim sylw i'w wneud' yn ymateb digonol i ymholiad gan y cyfryngau. Mae'r Cyngor yn agored ac yn atebol ac fe ddylai egluro bob amser os oes rheswm pam na fedr roi ateb i ymholiad penodol.

**5. Cyfweliadau gan y Cyfryngau**

- Rhaid sianelu pob cais am gyfweliadau ar faterion corfforaethol drwy'r Uned Gyfathrebu
- Gyda cheisiadau am gyfweliadau, byddir yn gofyn i Arweinydd y Cyngor ac i ddeilyddion portffolio perthnasol yn y lle cyntaf.
- Uwch swyddogion fydd yn ymateb i gyfweliadau ar faterion cefndirol, technegol neu weithredol gyda'r Arweinydd neu'r Prif Weithredwr yn clirio hynny.
- Bydd rhaid i unrhyw geisiadau i swyddogion gymryd rhan mewn rhaglenni dogfen o fath 'pryf ar y wal' gael eu sianelu drwy'r Uned Gyfathrebu.

## 6. Gweithio gyda phartneriaid

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda nifer o bartneriaid sector cyhoeddus / cymunedol. Rhaid i staff sicrhau eu bod yn gwybod pa bartner sy'n arwain ar gyfathrebu, a pha brotocol sy'n ei le ar gyfer delio â'r cyfryngau.

## 6. Digwyddiadau Tyngedfennol a Materion Rheoli Enw Da

Diffinnir digwyddiad tyngedfennol fel unrhyw ddigwyddiad lle y mae effeithiolrwydd ymateb y Cyngor yn debygol o gael effaith sylweddol ar hyder unrhyw unigolyn, teulu ac / neu'r gymuned ehangach yn yr Awdurdod Lleol. Dyma'r weithdrefn ar gyfer delio gyda digwyddiad tyngedfennol posib neu fater all ymwneud ag enw da'r Cyngor:

1. Y cam cyntaf yw rheoli'r digwyddiad yn unol â pholisïau neu weithdrefnau perthnasol yr Adran.
2. Lle bod aelod staff o'r farn bod y digwyddiad yn un tyngedfennol neu'n un a all ddatblygu i fod yn un tyngedfennol, mae'n hanfodol adrodd arno **ar unwaith** i uwch swyddog - gall yr uwch swyddog fod yn rheolwr llinell neu Bennaeth Gwasanaeth.
3. Bydd uwch swyddogion yn penderfynu:

   - A yw'r adroddiad yn ddilys
   - A fydd yr ymateb a gynigir ar y pryd yn ddigonol
   - A ddylid adrodd am y digwyddiad i'r Dirprwy Brif Weithredwr fel digwyddiad tyngedfennol

   Bydd y penderfyniad i ddatgan digwyddiad fel un tyngedfennol yn seiliedig ar o leiaf un rheswm gwrthrychol paham fod effeithiolrwydd ymateb y Cyngor yn debygol o gael effaith sylweddol ar hyder y cyhoedd.

   Ni ddylid datgan unrhyw ddigwyddiad yn un tyngedfennol dim ond oherwydd bod yna risg y bydd y Cyngor yn cael ei feirniadu. Dylai fod yn seiliedig ar effeithiolrwydd ein hymateb ac a yw'n debygol y bydd yn cael effaith sylweddol ar hyder y cyhoedd.

DRAFT

## 7. Y wasg a chyhoeddusrwydd yn ystod y cyfnod cyn-etholiad

Mae angen cymryd gofal arbennig mewn perthynas â gweithgaredd y cyfryngau a chyhoeddusrwydd yn ystod y cyfnod cyn unrhyw etholiad. Y neges bennaf yw i: os oes amheuaeth, ymgynghorwch â'ch pennaeth gwasanaeth, cyfarwyddwr corfforaethol neu'r prif weithredwr cyn i chi wneud dim all daflu amheuaeth ar ddidueddrwydd gwleidyddol staff neu arwain at sylwadau anffafriol ar y camau a gymerodd y Cyngor.

Mae cyfarwyddyd i staff ar gael ar y fewnrwyd http://monitor.anglesey.gov.uk/ neu cysylltwch â'r Uned Gyfathrebu.

## 8. Digwyddiadau rhoi cyhoeddusrwydd ac ymweliadau Pobl Bwysig (Gweinidogion Llywodraeth ac ati)

Dylai'r Uned Gyfathrebu gael gwybod ymlaen llaw am unrhyw ddigwyddiadau, cyfleon i dynnu ffotograffau neu ymweliadau fel y gall y rhain gael eu cynnwys ar y rhestr o gyfathrebiadau. Fe all yr Uned Gyfathrebu hefyd gynnig cyngor ar gyhoeddusrwydd cyn ac ar ôl y digwyddiad ac ymgysylltu gyda'r swyddogion, aelodau neu bartneriaid perthnasol ar faterion all fod angen eu hystyried.

## 9. Cynghorwyr a gweithgareddau'r cyfryngau

Mae'n anorfod y bydd newyddiadurwyr yn cysylltu â Chynghorwyr Sir unigol am eu safbwyntiau ar faterion yn ymwneud â'r Cyngor ac i fynd ar ôl rhyw stori arbennig neu i'r gwrthwyneb.

Os cysylltir gydag aelodau yn holi am adroddiad neu eitem ar raglen un o gyfarfodydd / pwyllgorau'r Cyngor, anogir hwy roi gwybod i'r Uned Gyfathrebu fel y gellir:

- Cynnig cyngor
- Rhannu unrhyw wybodaeth dechnegol / gefndirol berthnasol gyda'r aelod a'r newyddiadurwr perthnasol.
- Cynnig i aelodau gopi o ymateb y Cyngor / ffurfio ymateb y Cyngor.
- Peri bod unrhyw swyddogion perthnasol yn ymwybodol o faterion all godi
- Mewn amgylchiadau eithriadol, cynnal cynhadledd y wasg i'r cyfryngau.

Dylid mabwysiadu'r ymarfer dda ganlynol pan fydd Cynghorwyr Sir yn teimlo y gallant ddelio eu hunain gydag ymholiad gan y cyfryngau:

- Ysgrifennu i lawr enw'r newyddiadurwr, manylion cyswllt ac o ble y maent yn galw.
- Cymryd manylion am beth yn union y mae'r newyddiadurwr yn dymuno ei wybod.
- Gofyn am eu hamser cau ar gyfer yr eitem.
- Trefnu i ffonio'r newyddiadurwr yn ôl beth bynnag fo'r cwestiwn. Yn aml iawn, fe all rhywbeth fydd yn edrych fel ymholiad cymharol syml dyfu'n fater mwy o lawer.

Hefyd:

- **Peidiwch** bydd a dweud 'dim sylw i'w wneud' neu unrhyw amrywiad ar y thema honno. Mae hynny'n awgrymu ar unwaith bod yna rywbeth i'w guddio.
- **Dywedwch** nad oes gennych ddigon o wybodaeth i wneud sylw, ond y byddwch chi ( neu rywun arall ) yn dod yn ôl atynt ..... ac yna gwnewch hynny!
- **Peidiwch** â chadarnhau na gwadu unrhyw hanesion / sibrydion
- **Peidiwch** â siarad yn 'answyddogol'
- **Peidiwch** â bod yn orhyderus a dweud rhywbeth y gallwch ddifaru ei ddweud ar ôl hynny.
- Os ydych mewn penbleth, ceisiwch gael cyngor gan yr Uned Cyfathrebu.

| |
|---|
| **Mae Côd Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol yn nodi nad yw ond yn briodol defnyddio adnoddau cyhoeddus i roi cyhoeddusrwydd i Gynghorwyr unigol lle y mae hynny'n berthnasol i'w cyfrifoldeb o fewn y Cyngor. Pan fo unrhyw grŵp gwleidyddol neu aelod etholedig yn dymuno rhyddhau datganiadau gwleidyddol, fe ellir gwneud hyn trwy e-bost personol neu gyswllt uniongyrchol gyda newyddiadurwr.** |

## 10. Gwybodaeth bellach

Dewch i gysylltiad os bydd gennych unrhyw ymholiadau yn ymwneud â materion yn ymwneud â'r cyfryngau.

Uned Cyfathrebu Corfforaethol:

Gethin Jones 01248 752130 gethin.jones@ynysmon.gov.uk

Gwen Siôn 01248 752128 gwen.sion@ynysmon.gov.uk

DRAFT

This page is intentionally left blank

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL 2012/13** **EITEM RHAGLEN:**

| **Dyddiad 2012** | **Eitem gan:** | **PWNC YR ADRODDIAD** | **CANLYNIAD A DDYMUNIR/PWRPAS YR ADRODDIAD** ***"Beth ydych chi'n dymuno ei gael o'r Pwyllgor Sgriwtini h.y. ar ffurf penderfyniad?"*** | **PANELAU CANLYNIAD SGRIWTINI** |
|---|---|---|---|---|
| **4 Mawrth 2013** | BPG 19/11 –Ch2 3/12 10/12 | Adroddiad Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2012/13 – Chwarter 3 (Hydref-Rhagfyr 2012) | | |
| | | Adroddiad Monitro Perfformiad Corfforaethol 2012/13 – Chwarter 3 | | |
| | " | Llywodraethu Gwybodaeth | | |
| | PSC 8.10.12 | Cynllun Gweithredu Absenoldeb Salwch | | |
| | PSC 8.10.12 | **Cofrestr Risg Gorfforaethol** (bydd Aelodau'n cael hyfforddiant ym mis TACHWEDD. Maent wedi gofyn am ddiweddariad ynghylch y Strategaeth/Meini prawf ar gyfer y Gofrestr Risg fel y gellir asesu risgiau'n gorfforaethol. | | |
| | PSC 8.10.12 | **Gwasanaethau Cyfieithu** - ar gais y Cynghorydd G.O. Parry, Aelod Portffolio. Bydd Rheolydd yr Uned Gyfieithu yn cyflwyno adroddiad er gwybodaeth oherwydd hyd y rhaglen ar gyfer cyfarfod mis Mawrth. | | |
| | PSC 8.10.12 | **Compact Llywodraeth Cymru** – i lawr ar gyfer BPG 10/12/12 er gwybodaeth? | | |
| | PSC 8.10.12 | **Gorwariannau Cyllidebol** - adroddiadau misol yn mynd i'r Pwyllgor Gwaith neu'r Cyfarfodydd Cynaliadwyaeth ar 8.10.12 Mae Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr ??? wedi sefydlu gweithgor a gofynnwyd i'r Cynghorydd E.S. gynrychioli'r Pwyllgor Sgriwtini arno. | *Inaugural meeting 15th November2012.* | |
| | BPG 10.12.12 | Strategaeth Ymgysylltiad Cymunedol | | |
| | 10.12.12 | Adnewyddu Democrataidd | | |
| | BPG 14/1/13 | Compact Sector Gwirfoddol | | |
| | 18/3/13 | Newidiadau Cyfansoddiadol | | |
| | 18/3/13 | Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol | | |

Fel ar 16/11/12.

**ALLWEDD**: **BPG** = Blaenraglen y Pwyllgor Gwaith. **PSC** = Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (yn codi ohono).

## **<u>Paratoi ar gyfer Pwyllgorau Sgriwtini</u>:**

Ers Tachwedd 2010, bu cylch paratoi o 21 diwrnod ar gyfer Sgriwtini a gweithrdewyd y meini prawf isod ar gyfer dyddiadau cau *[Nodyn: mae'r dyddiadau eisoes wedi eu rhannu gyda phob aelod o'r TUA a Phenaethiaid Gwasanaeth]:-*

- **Cyfarfod gyda'r Cyfarwyddwr a'r Swyddog Sgriwtini Arweiniol i gytuno ar faterion ymarferol ar gyfer cynnwys eitemau ar y rhaglen ac adroddiadau ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini = 21 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod.**

- **Angen yr holl adroddiadau drafft (**wedi eu gweld a'u cytuno gan y Cyfarwyddwr perthnasol**) ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini perthnasol i'w gweld = **2 ddiwrnod gwaith cyn i'r Adain Bwyllgorau eu hanfon.**

- **<u>Anfon rhaglenni Pwyllgor</u>:** Mae angen cyflwyno'r holl adroddiadau terfynol wedi eu cyfieithu i'r Uned Bwyllgorau **o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn dyddiad y cyfarfod oherwydd, yn unol â'r gyfraith, rhaid i'r Aelodau a'r cyhoedd gael y cyfnod hwnnw i ddarllen y rhaglen a'r papurau**

Ers y cyfarfod o'r Grŵp Llywio Sgriwtini a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2012 a'r Cyngor Sir ym Mai 2012;

- **Cyflwyno cyfarfodydd briffio <u>Sgriwtini</u>** chwarterol **= 7 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod (yn cysylltu gyda **uchod).**

Gan bydd gostyngiad yn nifer yr aelodau etholedig yn Ynys Môn ac Etholiad ym Mai '13, mae'n debygol y bydd nifer y Pwyllgorau Sgriwtini yn gostwng o 5 i 3 neu 2. Byddai hynny'n creu rhagor o gapasiti ar gyfer aelodau a swyddogion i wneud gwaith mewn Panelau Canlyniad Sgriwtini yn unol â blaenoriaethau corfforaethol y cytunwyd arnynt, gan sicrhau y gall y swyddogion sgriwtini ychwanegu gwerth at y broses lywodraethu.

Rydym ar hyn o bryd yn rhoi sylw i'r pynciau a gafwyd yn ôl gan y Penaethiaid Gwasanaeth ac sydd wedi eu rhannu bellach gyda'r Cadeiryddion Sgriwtini er mwyn creu rhestr o Banelau Canlyniadau Sgriwtini ar gyfer 2012/13-2013/14. Byddwn yn eu hanfon atoch cyn gynted ag y bo modd.

***<u>Rheolydd  Sgriwtini, Tachwedd 2012</u>***